Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
# **Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019 / 20**

# Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20: Ffocws a Chynnwys


| | |
|---|---|
| 1. Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2. Sut y Datblygwyd ein Cynllun | 4 |
| 2.1 Ein strategaeth ar gyfer buddsoddi ffioedd | 4 |
| 2.2 Gwersi a Ddysgwyd | 5 |
| 2.3 Llais y Myfyrwyr | 6 |
| 3. Ein Grwpiau sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol | 7 |
| 3.1 Dysgwyr rhan amser | 7 |
| 3.2 Dysgwyr rhan amser aeddfed | 7 |
| 3.3 Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru | 7 |
| 3.4 Dysgwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) | 8 |
| 3.5 Dysgwyr o blith Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) | 8 |
| 3.6 Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | 8 |
| 3.7 Grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd | 8 |
| 4. Ein Hamcanion | 9 |
| 4.1 Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf | 9 |
| 4.2 Rhagoriaeth mewn Addysgu, Ysgolheictod ac Ymchwil Cymhwysol | 12 |
| 4.3 Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau | 13 |
| 4.4 Prifysgol i Gymru | 15 |
| 5. Cymorth Ariannol i'n Dysgwyr | 16 |
| 6. Sut Caiff ein Cynllun ei Fonitro | 17 |

# 1. Crynodeb Gweithredol

Cenhadaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yw *Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau*. Darpara Grŵp y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, addysg bellach ac uwch o 17 o gampysau ar draws de-orllewin Cymru, yn ogystal ag yng Nghaerdydd, Llundain a Birmingham, gan ddarparu cyfleoedd dihafal i hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac economaidd, i ehangu mynediad, ac i gefnogi dysgwyr o bob cefndir yn ystod pob cam yn eu haddysg.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2019/20 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth. Mae'r Cynllun yn canolbwyntio ar amcanion allweddol sy'n gysylltiedig â'n pedair Blaenoriaeth Strategol:

- Rhoi dysgwyr yn gyntaf
- Rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil cymhwysol
- Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau
- Prifysgol i Gymru

Mae'r targedau yn y Cynllun yn seiliedig ar ddadansoddi data cofrestru, cadw a chyflawniad dysgwyr ar gyfer Grŵp y Drindod Dewi Sant ac ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. O ganlyniad i'r dadansoddiad hwnnw, rydym wedi dewis canolbwyntio ein targedau ar gynyddu cyfranogiad a dileu rhwystrau i astudio ar gyfer y grwpiau canlynol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol:

- Dysgwyr rhan amser
- Dysgwyr rhan amser aeddfed
- Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru
- Dysgwyr sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)
- Dysgwyr o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME)
- Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad canlynol i gefnogi'r Cynllun:

> 'Hoffai Undeb y Myfyrwyr ddiolch i'r Brifysgol am ei dull o ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Ymgynghorwyd â ni'n llawn yn rhan o'r broses ac rydym yn falch o gymeradwyo'r ddogfen hon. Rydym yn teimlo'n arbennig o gryf am yr elfennau ehangu mynediad a gafwyd yn y cynllun hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Brifysgol i gyflawni ei thargedau, i ehangu mynediad at addysg uwch a galluogi dysgwyr i lwyddo.'
> **Rob Simkins, Llywydd Grŵp UM y Drindod Dewi Sant**

Cyfanswm yr incwm ffioedd i'w fuddsoddi er mwyn cyflawni amcanion allweddol ein Cynllun Ffioedd a Mynediad fydd **£14,079,600** i'w dyrannu yn y modd canlynol:

Cyfle cyfartal: **£7,112,826**
Hyrwyddo addysg uwch:**£6,966,774**

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaethau sy'n cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu defnyddwyr, yn unol â'r cyfarwyddyd i ddarparwyr addysg uwch a gyhoeddir gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Nid yw trefniadau ffioedd dysgu ar gyfer 2019/20 ac ymlaen wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru. Golyga hyn y gall y ffioedd dysgu ar gyfer dysgwyr sy'n cychwyn eu hastudiaethau yn 2019/20 gynyddu. Byddai'r cynnydd hwn yn gysylltiedig â chwyddiant, fel y'i caniateir gan Lywodraeth Cymru.

Rhown wybod i'r holl ymgeiswyr a dysgwyr am lefelau ffioedd 2019/20 ac am unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y derbynnir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru. Yn y cyfamser, ar sail y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, dyma'r ffioedd dysgu blynyddol y bwriadwn eu codi ar ein dysgwyr israddedig amser llawn newydd o'r DU a'r UE yn 2019/20:

| Rhaglen Astudio | Ffi |
|---|---|
| Tystysgrif AU (STEM) | £7,000 |
| Tystysgrif AU | £9,000 |
| HND | £9,000 |
| Gradd Sylfaen | £9,000 |
| Graddau Israddedig | £9,000 |
| Blwyddyn Ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) | £1,800 |
| Meistr Integredig | £9,000 |
| TAR | £9,000 |

O ystyried y ffioedd hyn, y ffioedd cyfartalog ar gyfer pob myfyriwr israddedig amser llawn fydd:

| | |
|---|---|
| Myfyrwyr israddedig amser llawn | £8,980 |
| Myfyrwyr TAR Amser Llawn (SAC) | £9,000 |

# 2. Sut y Datblygwyd ein Cynllun

**2.1 Ein strategaeth ar gyfer buddsoddi ffioedd**

Mae darparu profiad o ansawdd uchel i'n dysgwyr wrth wraidd Cenhadaeth y Brifysgol: Trawsnewid Addysg; Trawsnewid Bywydau. Darpara Grŵp y Drindod Dewi Sant, sy'n cynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, addysg bellach ac uwch o 17 o gampysau ar draws de-orllewin Cymru, yn ogystal ag yng Nghaerdydd, Llundain a Birmingham, gan ddarparu cyfleoedd dihafal i hyrwyddo symudedd cymdeithasol ac economaidd, i ehangu mynediad, ac i gefnogi dysgwyr o bob cefndir yn ystod pob cam yn eu haddysg. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â thri choleg addysg bellach yng Nghymru y tu allan i Grŵp y Drindod Dewi Sant i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gymunedau fanteisio ar addysg uwch. Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2019/20 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth.

Diffinnir ein trywydd i'r dyfodol yng Nghynllun Strategol y Brifysgol 2017-2022 gan gadarnhau ein hymrwymiad i'n dysgwyr ac i Gymru'n benodol - i'w diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith, ac i ffyniant ac iechyd hirdymor ei dinasyddion. Cydnabyddwn ein rhan leol, genedlaethol, ryngwladol a dinesig yn ddarparwr addysg uwch, a'r cyfrifoldebau sydd arnom. I adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gwneud y saith nod a'r pum ffordd o weithio a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i'n cynllunio, ac wedi sicrhau bod ein dyheadau'n cyfateb yn agos i'r rhai a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru yn *Symud Cymru Ymlaen 2016-21*.

Mae'r Cynllun Strategol yn mynegi ystod o werthoedd sydd wrth wraidd ein ffordd o weithio, gan gynnwys:

- *Addysgu ardderchog* wedi ei lywio gan ysgolheictod ac arfer proffesiynol, ac ymchwil cymhwysol sy'n dylanwadu ar wybodaeth a pholisi yng Nghymru a thu hwnt.
- *Cynwysoldeb*, trwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chefnogi pobl o bob math o gefndiroedd ac amgylchiadau i gyflawni eu potensial.
- *Cyflogadwyedd a chreadigrwydd*, trwy gynnig rhaglenni addysgol sy'n datblygu sgiliau entrepreneuraidd a chreadigol, gan alluogi dysgwyr i gael y cyfleoedd gorau i sicrhau swydd ac i gyfrannu at ffyniant eu cymunedau.
- *Cymru a'i chymeriad arbennig*, trwy ymgorffori nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ein holl weithgareddau, a thrwy ddathlu iaith, treftadaeth a diwylliant bywiog Cymru.

Mae'r gwerthoedd hyn wedi eu hadlewyrchu yn ein pedair Blaenoriaeth Strategol ar gyfer 2017-22:

- *Rhoi dysgwyr yn gyntaf*
- *Rhagoriaeth mewn addysgu, ysgolheictod ac ymchwil cymhwysol*
- *Creu cyfleoedd trwy bartneriaethau*
- *Prifysgol i Gymru*

Mae'r Cynllun Strategol yn seiliedig ar nifer o is-strategaethau, a phob un yn ceisio cyflawni targedau a dyheadau'r Cynllun Strategol. O berthnasedd arbennig i'r Cynllun Ffioedd a Mynediad mae'r Strategaeth Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned; y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi; y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog; y Strategaeth Cadw Myfyrwyr; y Strategaeth Cyflogaeth a Chyflogadwyedd; y Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a Chynlluniau Strategol y Cyfadrannau.

Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn nodi ein strategaeth ar gyfer buddsoddi'r ffioedd a gawn yn 2019/20 i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch sy'n sylfaenol i'n Cenhadaeth. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau gwell aliniad rhwng ein Cynllun Strategol, is-strategaethau a datblygiadau sefydliadol eraill. Adlewyrchir, felly, werthoedd a blaenoriaethau ein Cynllun Strategol yn uniongyrchol yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac mae amcanion perthnasol (a nodir yn Adran 4) yn gyffredin i'r naill gynllun a'r llall. Mae'r amcanion, yn eu tro, yn unol â chategorïau gwariant Llywodraeth Cymru. Yn yr un modd, mae'r mwyafrif o'r targedau yn fwriadol yn gyffredin i'r Cynllun Strategol a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, wedi eu chwyddo neu eu haddasu pan fo'n briodol i adlewyrchu llais y myfyrwyr[1] a'n gwerthusiad o lwyddiant strategaethau buddsoddi blaenorol.

Dosberthir ein buddsoddiad yn gymesur i'r targedau y ceisiwn eu cyflawni yn seiliedig ar ein Cynllun Strategol a dadansoddiad o'n poblogaeth o ddysgwyr. Mae'r gwaith a gyflawnir i ddiwallu'r targedau hyn yn cynnwys llenyddiaeth a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth a gynhelir i gefnogi ein dysgwyr a chodi dyheadau ar gyfer darpar ddysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; er enghraifft creu cyfleoedd yn gysylltiedig â chyflogaeth, gwybodaeth i grwpiau penodol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd addysg; presenoldeb mewn digwyddiadau sy'n anelu at hyrwyddo addysg uwch fel dewis bywyd a chynyddu dewisiadau cyflogaeth, a chyhoeddusrwydd yn gysylltiedig â mentrau sefydliadol megis Dylunio Bywyd, fforymau ymgysylltu â myfyrwyr a grwpiau cymorth. Dosberthir ein 18 targed yn gyfartal dan benawdau 'cyfle cyfartal' a 'hyrwyddo addysg uwch'. O fewn y penawdau hyn maent yn cyd-fynd â chategorïau a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru er mwyn ei gwneud yn glir pa amcan maent yn ceisio ei gyflawni. Mae'r dyraniad ariannol i gyfle cyfartal ychydig yn uwch na hyrwyddo addysg uwch yn 2019/20 yn sgil cynnwys cyllid i gefnogi Ymgyrraedd yn Ehangach.

[1] Defnyddir y termau 'dysgwr' a 'myfyriwr' yn gyfystyr yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn.

**2.2 Gwersi a Ddysgwyd**

Mae ystyried datblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol yn ganolog i brosesau cynllunio'r Drindod Dewi Sant. Wrth ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2019/20, rydym wedi ystyried nifer o adroddiadau cenedlaethol a rhanbarthol gan gynnwys Adolygiad Hazelkorn ac ymgynghoriadau dilynol ar addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, Adolygiad Diamond , y Datganiad Polisi ar Addysg Uwch, a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Gynllun Academaidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol De-orllewin a Chanolbarth Cymru 2017, yn ogystal â blaenoriaethau a chynllun gweithredu menter Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru. Mae cyhoeddiadau'r Academi Addysg Uwch (AAU) megis Rising to the Challenges of Tomorrow a'r Horizon Scanning Reports wedi rhoi persbectif ehangach y DU ar ddatblygiadau cyfoes o ran dysgu ac addysgu i ddiwallu anghenion gweithlu heddiw (a'r dyfodol).

Mae dull y Brifysgol o gynllunio ffioedd a mynediad wedi datblygu'n sylweddol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gan adlewyrchu camau i weithredu systemau mwy llyfn ar gyfer cynllunio strategol ac ariannol ar draws Grŵp y Drindod Dewi Sant. Wrth ddatblygu ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20, rydym wedi rhoi sylw gofalus i'r adborth, boed yn generig neu'n benodol, a gawsom gan CCAUC ar gynlluniau blaenorol. Rydym hefyd wedi cymharu cynnwys, dyluniad a chyflwyniad ein cynlluniau â rhai sefydliadau eraill yng Nghymru. Mae ein dulliau o hunanwerthuso Cynlluniau Ffioedd a Mynediad blaenorol wedi cynnwys monitro'r gwaith o gyflawni amcanion a thargedau yn ystod y flwyddyn berthnasol. Y tîm Polisi a Chynllunio sy'n arwain y broses werthuso, ac mae'n gweithio'n agos â'r swyddogion arweiniol ar gyfer pob targed i sicrhau y mesurir ac y cofnodir y cynnydd yn gywir, a bod her briodol os nad yw targed wedi'i gyflawni. Mae'r Pwyllgor Polisi Corfforaethol, a Phwyllgor Strategaeth ac Adnoddau Cyngor y Brifysgol, wedi craffu'n ofalus ar y gwaith o gwblhau'r Datganiad Monitro Blynyddol, sy'n rhoi tystiolaeth o berfformiad sefydliadol o'i gymharu â thargedau a gymeradwywyd, ac mae hyn wedi caniatáu lle i fyfyrio a llywio strategaeth yn y dyfodol.

Mae sicrhau bod ein targedau'n rhai CAMPUS wedi bod yn weithgaredd dysgu allweddol. Bellach mae'r rhan fwyaf yn feintiol ac yn defnyddio data cyhoeddedig sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol neu â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Credwn fod y dull hwn yn gwneud ein broses gynllunio a chyflawni'n fwy cadarn, ac yn ei gwneud yn bosibl i randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, llywodraethwyr a CCAUC graffu a herio i raddau helaethach. Wrth ddylunio ein targedau, rydym yn ein meincnodi ein hunain yn fewnol ac rydym hefyd yn defnyddio cyfartaleddau sector a meincnodau allanol eraill yng Nghymru ac ar draws y DU, megis y rhai a gyhoeddir trwy'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF). Cydnabyddwn mai proses ailadroddol yw cynllunio ffioedd ac rydym yn ymgynghori â'n cyfadrannau a'n gwasanaethau proffesiynol, yn ogystal ag Undeb y Myfyrwyr, i gael sicrwydd bod yr ymrwymiadau a'r targedau a nodir yn gyraeddadwy. Ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20, rydym hefyd wedi ymgynghori â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ynghylch ein targedau cyfrwng Cymraeg arfaethedig.

O werthuso ein llwyddiant i gyrraedd targedau cynlluniau ffioedd blaenorol[2] gwelir ein bod wedi cyrraedd targedau mewn amrywiaeth o feysydd. Er enghraifft, rydym wedi bod yn llwyddiannus wrth annog cyfranogiad mewn cyfleoedd astudio mewn gwledydd dramor (perfformiad: 54, targed 55) ac wrth dargedu'r cyfleoedd hyn i ddysgwyr o ardaloedd amddifadedd (perfformiad: 10, targed 7). Rydym wedi rhagori ar ein meincnod ar gyfer cyfran y myfyrwyr israddedig amser llawn sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA) a hynny mewn modd eithriadol (perfformiad: 18.2%, targed 8.8%). Rhagorwyd ar ein targed i gefnogi a chynyddu nifer y busnesau newydd gan raddedigion o gryn dipyn (perfformiad: 75, targed: 50). Mae'r cyflawniadau hyn wedi dylanwadu ar y targedau rydym wedi eu pennu ar gyfer Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 ac mae rhai targedau wedi eu dileu,[3] er ein bod wedi parhau i gynnwys targedau mewn rhai meysydd cyflawniad am y rhesymau a roddir yn Adran 3 isod.

Fodd bynnag, nid ydym eto wedi cael llwyddiant llawn o ran bodloni ein targedau mewn rhai meysydd. Er enghraifft, er ein bod wedi llwyddo i gynyddu canran y dysgwyr sy'n byw yng Nghymru o ardaloedd o amddifadedd, syrthiodd ein niferoedd yn brin yn 2016/17 o darged ein Cynllun Ffioedd a Mynediad (perfformiad: 1,560, targed: 1,602). Nid yw ein hymdrechion i ddenu dysgwyr rhan-amser wedi arwain eto at gyflawni ein targed (perfformiad: 2,823, targed: 4,100). Mae cyfran ein dysgwyr israddedig amser llawn nad oeddent mewn addysg flwyddyn ar ôl mynediad wedi cynyddu, ond rydym wedi colli ein targed o drwch blewyn (perfformiad: 12.32%, targed: 12%). Yn yr un modd, er ein bod wedi rhagori ar ein targedau ar gyfer nifer y dysgwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd o'u rhaglen addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg (perfformiad: 2,380, targed: 2,080), cydnabyddwn fod angen camau pellach i gynyddu'r niferoedd sy'n astudio 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg (perfformiad: 466, targed: 850). Rydym hefyd wedi rhagori ar ein targed ar gyfer cyfran ein graddedigion sydd mewn gwaith, yn astudio neu'r naill a'r llall 6 mis ar ôl graddio (perfformiad: 95.6%, targed: 93%), ond cydnabyddwn y bydd cyflawni targedau ynghylch cyflogaeth fedrus iawn (perfformiad: 64.52%, targed: 69.3%) yn faes ffocws parhaus i ni. O ganlyniad, mae'r meysydd hyn yn parhau'n flaenoriaethau yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2019/20.

[2] Mae'r targedau y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn gysylltiedig â Chynllun Ffioedd 2016/17, y cwblhawyd Datganiad Monitro Blynyddol ar ei gyfer yn ddiweddar.

[3] At hynny, ni fydd targedau'n ymwneud â hyfforddi athrawon yn ymddangos yn ein Cynlluniau Ffioedd a Mynediad bellach, yn hytrach adroddir arnynt yn uniongyrchol i'r Adran Addysg. Hefyd rydym wedi dileu nifer o dargedau a oedd yn benodol i flynyddoedd blaenorol (er enghraifft, cyflawni achrediad gan Stonewall).

### 2.3 Llais y Myfyrwyr

Yn unol ag egwyddorion Wise Cymru, ac fel yr adlewyrchir yn ein Siartr Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'i dysgwyr ac Undeb y Myfyrwyr i ddarparu profiad dysgu o ansawdd uchel. Mae egwyddorion Partneriaeth Wise Cymru ar gyfer Addysg Uwch yng Nghymru wedi eu cynnwys yn ein Siartr Myfyrwyr a'n Llawlyfr Ansawdd Academaidd.[4] Ers dechrau cynllunio ffioedd a mynediad, rydym wedi archwilio nifer o fodelau ar gyfer sicrhau bod llais y myfyrwyr yn rhan annatod o'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a'r strategaethau buddsoddi cysylltiedig. Bellach mae strategaethau ymgysylltiad a chynrychiolaeth myfyrwyr wedi ymgorffori ar draws y Brifysgol a thrwy Undeb y Myfyrwyr, cynrychiolir dysgwyr ar Gyngor y Brifysgol (dau aelod) ac maent yn bresennol ar ei Bwyllgor Strategaeth ac Adnoddau trwy Lywydd Grŵp Undeb y Myfyrwyr. Maent hefyd â chynrychiolaeth ar y Senedd (y prif gorff academaidd) a mwyafrif ei phwyllgorau. Mae penderfyniad gan y Senedd yn haf 2016 i ganiatáu i aelod staff o Undeb y Myfyrwyr (fel arfer y Prif Weithredwr) fod gyda swyddogion sabothol mewn cyfarfodydd pwyllgorau academaidd wedi darparu ar gyfer gwell parhad o ran dull ac wedi cefnogi'r swyddogion sabothol i wneud cyfraniadau gwybodus a dylanwadol i benderfyniadau. Mewn newid allweddol pellach a gyflwynwyd yn 2017/18, mae hefyd aelod o blith y myfyrwyr ar y Pwyllgor Polisi Corfforaethol newydd, sy'n goruchwylio'r agweddau gweithredol ar gynllunio ffioedd a mynediad.

Trwy'r Adran Profiadau Myfyrwyr a chan weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, mae'r Brifysgol wedi gwneud ymdrechion sylweddol i sicrhau bod cynifer ag y bo modd yn cymryd rhan mewn arolygon bodlonrwydd myfyrwyr, ac i sicrhau y defnyddir canlyniadau'r arolygon hyn yn systematig i dargedu meysydd i'w gwella a buddsoddi ynddynt. Defnyddir dull tebyg i ddulliau eraill o gasglu adborth, gyda rhagor o ffocws ar ymgysylltu â dysgwyr yn unigol. Cyflawnir hyn trwy 'bythefnosau adborth' bob tymor pryd mae cyfleoedd i roi adborth sydd wedi eu teilwra'n bersonol, ynghyd â rhyngweithio ag amrywiaeth o aelodau staff y Brifysgol, yn rhoi rhagor o gyfleoedd i ddysgwyr ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau, yn ogystal ag ymdeimlad o berchenogaeth ar gyfarwyddo gwaith y Brifysgol. Defnyddir data arolygon hefyd i dargedu meysydd a grwpiau ffocws i archwilio materion ymhellach a chynllunio atebion gyda dysgwyr. Gyda chytundeb Undeb y Myfyrwyr, ac yng ngoleuni gwasgariad daearyddol eang ein campysau, mae datblygu ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd trwy'r dulliau hyn, ynghyd â thrafodaethau â ffocws â chynrychiolwyr etholedig y myfyrwyr, a rhwng y tîm Polisi a Chynllunio a swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr. Mae aelodau'r tîm Polisi a Chynllunio hefyd wedi ymweld â champws Llundain gydag Undeb y Myfyrwyr i geisio barn dysgwyr yn Llundain. Mewn ymateb i hyn, cymerir camau megis, er enghraifft, adolygiad pellach o'r pecyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau.

Ym mis Tachwedd 2016, lluniodd Undeb y Myfyrwyr ei Adroddiad Ansawdd Academaidd cyntaf i'w ystyried gan y Senedd. Canolbwyntiai'r adroddiad, a enillodd Wobr Addysg UCM ym mis Mawrth 2017, ar thema costau ariannol astudio gan symbylu amryw o gamau gan y Brifysgol, yn cynnwys adolygu (a diwygio maes o law) ei phecyn bwrsariaethau, cyflwyno cymorth wedi ei dargedu mewn meysydd pwnc penodol, a llunio gwybodaeth fwy cynhwysfawr am gostau. Mae'r gwaith yn parhau mewn amrywiaeth o feysydd a chynhelir adolygiad gan y Senedd ar y cynnydd ym mis Mai 2018.

I lywio'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn, rydym hefyd wedi casglu gwybodaeth gan ein partneriaid addysg bellach, yn bennaf trwy adroddiadau Arweinwyr Timau Partneriaeth y Brifysgol (sy'n cyfarfod â dysgwyr yn rhan o'u cylch gwaith i oruchwylio rhaglenni unigol a gynigir mewn sefydliadau partner) a thrwy'r gwahanol ddulliau ar gyfer llais y dysgwyr, gan gynnwys arolygon, sy'n gweithredu oddi mewn i sefydliadau unigol. Mae gwaith yr Arweinwyr Timau Partneriaeth yn darparu ffynhonnell ddi-baid o wybodaeth am brofiadau dysgwyr mewn sefydliadau partner ar gyfer y Brifysgol ac, o bosibl, am unrhyw rwystrau i gyfranogiad y mae dysgwyr yn eu hwynebu. Mae datblygu ein Cynllun Ffioedd a Mynediad ar gyfer 2019/20 wedi canolbwyntio ar yr adborth a gafwyd trwy'r dulliau hyn, ac mae camau sy'n gysylltiedig, er enghraifft, â gwella profiadau addysg uwch, wedi'u llunio mewn ymateb i hynny. Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd wrthi'n gweithredu dull mwy systematig o ymgysylltu â dysgwyr ar raglenni rhyddfraint.

Cydnabyddwn y gellir gwneud rhagor i wella ymgysylltiad dysgwyr â'r broses o gynllunio ffioedd fel gweithgaredd parhaus (yn hytrach nag un blynyddol) a chroesawn gyhoeddi cyfarwyddyd ar y pwnc hwn gan CCAUC yn ddiweddar.

Mae Undeb y Myfyrwyr wedi gwneud y datganiad canlynol i gefnogi'r Cynllun:

> 'Hoffai Undeb y Myfyrwyr ddiolch i'r Brifysgol am ei dull o ddatblygu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Ymgynghorwyd â ni'n llawn yn rhan o'r broses ac rydym yn falch o gymeradwyo'r ddogfen hon. Rydym yn teimlo'n arbennig o gryf am yr elfennau ehangu mynediad a gafwyd yn y cynllun hwn ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Brifysgol i gyflawni ei thargedau, i ehangu mynediad at addysg uwch ac i alluogi dysgwyr i lwyddo.'
> **Rob Simkins, Llywydd Grŵp UM y Drindod Dewi Sant**

[4] Llawlyfr Ansawdd Academaidd 2017/18 Pennod 12: Cynrychiolaeth, Ymgysylltiad a Chymorth Myfyrwyr. Ar gyfer 2018/19, bydd Pennod 5 y Llawlyfr yn fersiwn diwygiedig o'r bennod honno.

# 3. Ein Grwpiau sydd Heb Gynrychiolaeth Ddigonol

I lywio'r targedau a bennir yn ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20, rydym wedi cynnal dadansoddiad ar y data cofrestru, cadw a chyflawni dysgwyr ar gyfer Grŵp y Drindod Dewi Sant ac ar gyfer addysg uwch yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Mae'r dadansoddiad hwn wedi cadarnhau bod chwe grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd yng Ngrŵp y Drindod Dewi Sant ac sydd hefyd yn ffocws blaenoriaethau cenedlaethol a sectoraidd. Ceisia ein targedau gynyddu cyfranogiad dysgwyr yn y grwpiau hyn trwy nodi rhwystrau i lwyddiant, a pharhau i ddatblygu a darparu cymorth a dargedir. Y buddsoddiad i gefnogi'r gweithgarwch hwn (cyfle cyfartal) yw £7,112,826.

### 3.1 Dysgwyr rhan amser

Mae cyfran sylweddol o ddysgwyr israddedig y Drindod Dewi Sant o'r DU[5] a'r UE yn astudio'n rhan amser. Mae Grŵp y Drindod Dewi Sant yn recriwtio canran uwch o ddysgwyr israddedig rhan amser o'r DU a'r UE na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU:

| Cyfran yr israddedigion o'r DU a'r UE sy'n rhan amser yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 31% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 28.4% |
| Cyfartaledd yn y DU | 20.6% |

Fodd bynnag, mae nifer y dysgwyr rhan amser wedi gostwng yn raddol dros y cyfnod rhwng 2013/14 a 2016/17, oddi mewn i Grŵp y Drindod Dewi Sant ac ar draws y sector yng Nghymru. Mae recriwtio dysgwyr rhan amser, a'u cefnogi i gyflawni eu potensial llawn, yn sylfaenol i'n Cenhadaeth, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth â ffocws ar eu cyfer trwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn.

### 3.2 Dysgwyr rhan amser aeddfed

Rydym yn falch o'n hanes ynghylch dysgwyr 'aeddfed' (h.y. y rhai sydd dros 21 oed) ac mae cyfran y dysgwyr israddedig amser llawn o'r DU a'r UE yn y categori hwn yn y Drindod Dewi Sant yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU:

| Cyfran y dysgwyr israddedig amser llawn sydd dros 21 yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 62% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 44% |
| Cyfartaledd yn y DU | 45% |

Mae cyfran y dysgwyr rhan amser aeddfed yn y Drindod Dewi Sant yn unol â'r cyfartaledd ar gyfer holl sefydliadau addysg uwch Cymru, fodd bynnag, mae'n is na'r cyfartaledd yn y DU yn gyffredinol:

| Cyfran y dysgwyr israddedig rhan amser sydd dros 21 yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 85% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 85% |
| Cyfartaledd yn y DU | 90.5% |

Cydnabyddwn fod denu a chadw dysgwyr aeddfed yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru: mae argymhellion ar gyfer annog a chefnogi dysgwyr aeddfed wedi ymddangos – ac yn parhau i ymddangos – mewn dogfennau ymchwil a pholisi allweddol, gan gynnwys Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer Datblygu System Addysg Ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru, Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Addysg Uwch a The power of part-time gan Universities UK. Bydd cefnogi ein dysgwyr aeddfed trwy ddynodi eu hanghenion dysgu a'u hymrwymiadau bywyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni.

### 3.3 Dysgwyr o ardaloedd difreintiedig yng Nghymru

Mae cyfran y dysgwyr o Gymru sy'n byw mewn ardaloedd o amddifadedd (h.y. cwartel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru neu mewn ardaloedd clwstwr Cymunedau'n Gyntaf neu mewn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf) sy'n astudio yn y Drindod Dewi Sant wedi cynyddu dros y cyfnod o dair blynedd rhwng 2013/14 a 2016/17. Yn ystod blwyddyn academaidd 2016/17, roedd 21.5% o'r holl ddysgwyr o Gymru yn y Drindod Dewi Sant yn dod o ardaloedd o amddifadedd. Fodd bynnag, cydnabyddwn fod y grŵp hwn yn parhau heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch yng Nghymru yn gyffredinol, a chwympo a wnaeth ein canran ein hunain o ddysgwyr yn y categori hwn yn 2016/17. Mae ein gweithgareddau'n ceisio codi dyheadau ar gyfer dysgwyr ac, yn hollbwysig, drafod rhwystrau a heriau yn gynnar iawn er mwyn gweithredu dulliau cymorth priodol.

[5] Diffinnir dysgwyr y DU fel y rheini yr oedd eu cartref arferol cyn cychwyn ar eu rhaglen astudio yn y DU, ac at ddibenion dadansoddi mae hyn yn cynnwys Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw.

### 3.4 Dysgwyr sy'n derbyn Lwfans i Fyfyrwyr Anabl (DSA)

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i ddileu rhwystrau canfyddedig i addysg uwch ar gyfer dysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol ac rydym wedi buddsoddi'n sylweddol mewn darparu'r offer i alluogi dysgwyr o'r fath i gyrraedd eu potensial llawn. Mae hwn yn faes cryfder allweddol i Grŵp y Drindod Dewi Sant, a thros gyfnod o dair blynedd rhwng 2013/14 a 2016/17, rydym wedi cynyddu canran y dysgwyr gradd gyntaf amser llawn sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl i lefelau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU:

| Cyfran y dysgwyr gradd gyntaf amser llawn sy'n derbyn DSA yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 18.2% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 11.3% |
| Cyfartaledd yn y DU | 7.9% |

Er bod cyfran ein dysgwyr sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn un sylweddol, cydnabyddwn y derbynnir ar draws y sector fod dysgwyr anabl yn grŵp anodd ei gyrraedd. Mae parhau i ddarparu amgylchedd ymatebol a chefnogol i ddiwallu eu hanghenion a'u galluogi i gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus yn elfen bwysig yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad.

Cafwyd cynnydd o un flwyddyn i'r llall o 2013/14 i 2016/17 yn nifer y myfyrwyr sy'n datgan anawsterau iechyd meddwl. Er bod ein cyfradd gyfranogi'n gyson â'r cyfartaledd yng Nghymru a'r DU, cydnabyddwn fod lefelau cyfranogi'n parhau'n gymharol isel yn y sector a bod cymorth i ddysgwyr yn y categori hwn yn brif faes ffocws i UCM a Llywodraeth Cymru. Ceisiwn annog datgelu a chyfranogi drwy ein targed i gynyddu cymorth iechyd meddwl a gyllidir drwy'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

| Cyfran y myfyrwyr gradd gyntaf yn datgelu anawsterau Iechyd Meddwl yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 3.3% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 3.3% |
| Cyfartaledd yn y DU | 3.1% |

### 3.5 Dysgwyr o blith Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME)

Rydym yn cofrestru lefelau uwch o ddysgwyr israddedig amser llawn o blith pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) o'r DU a'r UE na'r cyfartaledd yng Nghymru, ond cydnabyddwn fod cyfleoedd pellach i ddeall yr heriau amrywiol y mae'r grŵp hwn yn eu hwynebu ac i ddarparu cymorth priodol wedi ei dargedu. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein galluogi i symud yn nes at y cyfartaledd yn y DU:

| Cyfran yr israddedigion BAME yn 2016/17 | |
|---|---|
| Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | 13.3% |
| Cyfartaledd yng Nghymru | 10.6% |
| Cyfartaledd yn y DU | 23.0% |

Mae dadansoddi'r data cyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr gradd gyntaf amser llawn o'r DU a'r UE yn dangos yn glir fod bylchau cyrhaeddiad yn bodoli ar gyfer dysgwyr BAME ar draws y sector, gan gynnwys yn y Drindod Dewi Sant. Mae'r Brifysgol yn gweithio'n galed i ddarparu gwell cyfleoedd i ddysgwyr BAME astudio, gwneud cynnydd a chyflawni.

### 3.6 Dysgwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae CCAUC wedi pennu targed o gael 5,600 o ddysgwyr yn astudio o leiaf 5 credyd o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2016/17, a 3,030 o ddysgwyr yn astudio o leiaf 40 o gredydau yn y Gymraeg. Yn 2016/17, cyflawnodd Grŵp y Drindod Dewi Sant 43% o'r targed ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i ddysgwyr sy'n astudio 5 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg, a chyflawnodd 15% o darged Sefydliadau Addysg Uwch Cymru ar gyfer 40 o gredydau. Mae nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio rhan o'u rhaglen trwy gyfrwng y Gymraeg, fodd bynnag, wedi amrywio. Mae'r Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i annog a chefnogi cyfranogiad dysgwyr newydd a phresennol i ddilyn rhan o'u rhaglen astudio neu'r cyfan trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hon yn rhan allweddol o'n hymrwymiad strategol i ddiwylliant Cymru yn fwy cyffredinol.

### 3.7 Grwpiau eraill sy'n anodd eu cyrraedd

Yn ogystal â'r rheini a nodwyd uchod, cydnabyddwn hefyd grwpiau eraill sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch, gan gynnwys y rhai sydd:

- Yn byw mewn aelwydydd heb waith
- Yn profi 'tlodi yn y gwaith'
- Yn ceisio lloches
- Yn derbyn Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
- Yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim
- Y cyntaf o'u teulu i fynd i mewn i addysg uwch
- Yn gweithredu'n ofalwyr
- Yn dod o gefndir gofal
- Wedi eu dieithrio oddi wrth eu teuluoedd
- Gyda chefndir o euogfarnau troseddol

Ni chysylltir camau penodol i hyrwyddo cyfleoedd addysg uwch a chyfle cyfartal i'r grwpiau hyn â thargedau penodol yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad hwn. Fodd bynnag, bydd ein gweithgarwch ehangu mynediad ac Ymgyrraedd yn Ehangach, a chyfleoedd ymgysylltu eraill, yn parhau i ganolbwyntio ar y meysydd hyn, a byddwn yn parhau i sicrhau bod ein darpariaeth gwasanaethau myfyrwyr yn diwallu anghenion dysgwyr unigol yn y grwpiau hyn.

# 4. Ein Hamcanion

## 4.1 Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf

Mae'r dysgwr yn ganolog i Grŵp y Drindod Dewi Sant ac mae ein hymrwymiad i ddarparu profiad dysgu ardderchog yn greiddiol i'n gweithgareddau. Credwn fod addysg yn newid bywydau a, thrwy weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, rydym wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr i wireddu eu potensial o fewn amgylcheddau dysgu sy'n groesawgar, cynhwysol, cefnogol a diogel. Lluniwyd ein Cynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi cyflawni'r agwedd hon ar ein cyfeiriad strategol.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

| Amcanion y Drindod Dewi Sant | Categorïau Buddsoddi Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Darparu profiad dysgu cefnogol, cynhwysol o ansawdd uchel ar gyfer ein holl ddysgwyr i'w galluogi i wireddu eu potensial llawn. | **a2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a4** cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr;<br>**a5** gwella'r profiad o addysg uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch<br>**b2** gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr;<br>**b6** codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr; |
| Gweithio mewn partneriaeth â'n dysgwyr i'w hannog i fynd i'r afael yn llawn â'u rhaglenni astudio ac i gymryd rhan lawn yn ein prosesau penderfynu. | **a4** cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr;<br>**a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**b2** gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr. |
| Parhau i ddatblygu ein portffolio o raglenni a gyflwynir yn hyblyg, gan alluogi dysgwyr i gael cyfleoedd astudio mewn modd sy'n addas i'w ffordd o fyw a'u hymrwymiadau | **a1** hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>a3 codi dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn cefnogi llwyddiant mewn addysg uwch;<br>**a4** cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr; |
| Cyfrannu at greu Cymru fwy cyfartal trwy hyrwyddo cyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, trwy ddarparu cyfleoedd dysgu hygyrch a thrwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad, gan sicrhau bod y rhai sy'n dewis astudio gyda ni'n derbyn cymorth ardderchog trwy gydol eu cyfnod astudio. | **a1** hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a3** codi dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn cefnogi llwyddiant mewn addysg uwch;<br>**a4** cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr;<br>**a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**a9** cyfrannu at Bartneriaethau Ymgyrraedd yn Ehangach. |

**Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn yn ystod 2019/20, gwnawn y canlynol:**

- Gweithio'n agos ag ysgolion, partneriaid a grwpiau cymunedol i feithrin hyder, codi dyheadau a chynyddu cyfranogiad darpar ddysgwyr o grwpiau daearyddol a grwpiau incwm sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac yn anodd eu cyrraedd.
- Darparu cyrsiau astudio arloesol a hyblyg a ddatblygir mewn partneriaeth â diwydiant a chyrff achredu proffesiynol, sy'n caniatáu i ddysgwyr astudio'n rhan amser ac sy'n ddeniadol i gyflogwyr.
- Cyfoethogi ein canolfannau dysgu mewn lleoliadau strategol allweddol gan anelu at ehangu mynediad ar gyfer dysgwyr o gymunedau BAME.
- Darparu pecyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau sy'n targedu meysydd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau anodd eu cyrraedd.
- Ymateb yn ystwyth i newidiadau a ragwelir yn y system cymorth myfyrwyr, a gyflwynwyd yn rhan o Adolygiad Diamond, sy'n anelu at agor cyfleoedd addysgol i ddysgwyr sy'n ystyried bod cost astudio'n uchel iawn.
- Sicrhau bod ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr ymhob canolfan ddysgu'n darparu cymorth penodol a dargedir i ddiwallu anghenion dysgwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Dynodi grwpiau sydd fwyaf tebygol o adael addysg uwch er mwyn i ni allu teilwra cymorth dysgwyr yn unol â hynny, a sicrhau bod modd i ddysgwyr gael mynediad i'r cymorth ariannol, lles a thiwtorial sydd ar gael.
- Parhau i feithrin amgylcheddau dysgwyr sy'n gynhwysol.
- Cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a gweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i gefnogi'n llawn ymgyrchoedd UCM sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchodedig, ac iechyd meddwl a lles.

Nod ein gwaith agos ag ysgolion, partneriaid a grwpiau cymunedol yw codi dyheadau a chynyddu cyfranogiad darpar ddysgwyr o grwpiau daearyddol a grwpiau incwm sydd heb gynrychiolaeth ddigonol. Bydd ein cyfadrannau, ein timau cyswllt ysgolion ac ehangu mynediad yn parhau i ddarparu gweithgareddau ymgysylltu arloesol ac addysgol sy'n codi dyheadau, gan gynnwys parhau â gweithgareddau megis Girls into ICT, Arts after Dark, Poetry in Motion, a'r gynhadledd 6ed dosbarth yn Llambed.

Byddwn yn cefnogi dysgwyr drwy becyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau cystadleuol. Ar lefel genedlaethol, rhagwelir y bydd cyflwyno'r system gymorth newydd, yn sgil Adolygiad Diamond, yn agor cyfleoedd addysgol i ddysgwyr a fyddai fel arall yn ystyried bod costau'n uchel iawn, a byddwn yn gweithredu'n gyflym i sicrhau y rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfleoedd o'r fath ac y gallwn gefnogi darpar ddysgwyr i gael mynediad i'r cymorth ariannol sydd ar gael.

Gosodir ein gweithgarwch ninnau yn erbyn tuedd genedlaethol o niferoedd astudio rhan amser sy'n gostwng, ac nid yw niferoedd ein dysgwyr wedi cynyddu. Ar lefel ehangach, gobeithir y bydd cyflwyno benthyciadau cynhaliaeth i ddysgwyr rhan amser, ynghyd â'r grant ffioedd dysgu, grant gofal plant a'r pecynnau cymorth ariannol eraill, yn gwneud addysg uwch yn ddewis mwy deniadol a realistig ar gyfer darpar ddysgwyr rhan amser.

Cydnabyddwn fod dysgwyr rhan amser yn parhau i wynebu ystod o heriau o ran cyfranogi, yn cynnwys trefnu cyfrifoldebau gofal a gwaith o gwmpas gweithgareddau dysgu ac addysgu. Mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr, bydd ein darpariaeth a dargedir yn parhau i gynnwys bwrsariaethau ar gyfer costau gofal plant ac astudio rhan amser. Byddwn hefyd yn darparu pecynnau cymorth cynhwysfawr ar gyfer oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

Ymfalchïwn mewn darparu addysg ar gyfer y nifer uchaf o ymadawyr gofal yn sector addysg uwch Cymru, gan gydnabod yr heriau penodol maent yn eu hwynebu a'u cefnogi i wireddu eu potensial drwy astudio. Byddwn yn cynnal pecyn cymorth cynhwysfawr ar gyfer ymadawyr gofal mewn addysg uwch, yn cynnwys darparu cyswllt staff penodedig, bwrsariaeth ymadawyr gofal hyd at £1,000 (dyrennir cyfanswm o £40,000), a chynnig llety ar y campws ar hyd y flwyddyn os bydd angen. Cynhelir cyfarfodydd bob tymor i drafod cymorth a darpariaeth ar gyfer ymadawyr gofal, gyda chyfranogiad gan Undeb y Myfyrwyr a'r Swyddog Ymgyrraedd yn Ehangach. Yn rhan o'n cynllun gweithredu Ymgyrraedd yn Ehangach cyfredol, byddwn yn parhau i gyflwyno'r ymgyrch BeThe#1: mae gweithgareddau blaenorol wedi cynnwys cyfres o ffilmiau byr gyda dysgwyr cyfredol a graddedigion y Brifysgol gan anelu at godi dyheadau 'Plant sy'n Derbyn Gofal'; mae'r gweithgarwch presennol yn cynnwys sesiynau hyfforddi gyda gweithwyr cymdeithasol a gofalwyr maeth. Byddwn hefyd yn parhau i fynd i Rwydwaith Ymadawyr Gofal SAU Cymru (CLASS Cymru) fel modd o rannu arfer gorau ar draws y sector, ac er mwyn cyfrannu i'r Canllaw Addysg Bellach ac Uwch ar gyfer Pobl Ifanc mewn ac yn Gadael Gofal yng Nghymru, a luniwyd gan Bartneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru. Rydym yn cyfrannu i ddatblygiad strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach newydd ar gyfer ein rhanbarth, sy'n cyd-fynd â chyfarwyddyd CCAUC, a byddwn yn clustnodi'r gyfran ofynnol o'n hincwm ffioedd dysgu ar gyfer gweithgareddau Ymgyrraedd yn Ehangach 2019/20.

Fel modd allweddol o ehangu mynediad, rydym wedi dynodi cyfleoedd i ehangu dulliau cyflwyno ein rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch (CertHE) mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle. Yn wreiddiol cyflwynwyd y rhaglen hon mewn lleoliadau cymunedol yn ne Cymru, ac yn dilyn hynny, ar ein campws yn Llundain. Yn sgil ymchwil i'r farchnad, rydym wedi dynodi Caerdydd a Birmingham yn ganolfannau dysgu ychwanegol a gwnaethpwyd gwaith i ddatblygu perthnasoedd agosach â chymunedau penodol yn y lleoliadau hynny, gan ganolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael. Gwelir bod y rhaglen yn llwyddiannus o ran annog cyfranogiad gan ddysgwyr BAME ac aeddfed, ac mae wedi ein galluogi i amrywiaethu proffil ein dysgwyr: mae tua 84% o'r dysgwyr sy'n astudio ar hyn o bryd am y Dystysgrif AU yn Llundain a Birmingham o'r gymuned BAME ac mae 98% yn aeddfed. Mae'r rhaglen yn darparu cymhwyster cydnabyddedig ar gyfer dysgwyr a hefyd lwybr dilyniant i astudio ymhellach ar Lefelau 5 a 6, a byddwn yn darparu'r cymorth angenrheidiol i alluogi pob dysgwr, mewn lleoliadau yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU, i gwblhau'r rhaglen o'i ddewis a chyflawni'i ddyheadau. Byddwn yn parhau i ddatblygu a chynnig rhaglenni arloesol megis hon: darperir Tystysgrif AU mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol ategol ac rydym yn archwilio cyfleoedd i sefydlu rhaglenni sylfaen integredig yn y Dyniaethau. Byddwn hefyd yn archwilio cyfleoedd i ddarparu mwy o raglenni, megis BSc mewn Iechyd Meddwl, mewn lleoliadau cymunedol ac i ehangu ein darpariaeth hyblyg mewn Addysg Blynyddoedd Cynnar.

Mae Grŵp y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau i gyfranogiad a chreu amgylcheddau dysgu cynhwysol, ac ymfalchïwn yn ein llwyddiant wrth gynyddu'n sylweddol ganran y dysgwyr graddau cyntaf amser llawn sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl. Byddwn yn parhau i wella ein prosesau ar gyfer asesu gofynion penodol dysgwyr unigol er mwyn sicrhau, pan fo datgeliad wedi'i wneud ymlaen llaw, y darperir yr adnoddau angenrheidiol ar ddechrau eu rhaglenni astudio. Mae iechyd meddwl yn faes anabledd

wedi'i ddatgan sydd wedi dangos cynnydd o un flwyddyn i'r llall o 2013/14 i 2016/17. Rydym yn gweithio'n agos gyda dysgwyr i'w helpu i reoli'u hanawsterau a chydlynu ystod y cymorth sydd ar gael o fewn y Brifysgol ac yn y gymuned ehangach. Mae cyllid y Cynllun Ffioedd a Mynediad eisoes wedi ein galluogi i gynyddu nifer y gweithwyr cymorth iechyd meddwl ar draws ein campysau, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth un-i-un, sesiynau galw heibio, a hyfforddiant i'r staff. Hefyd byddwn yn darparu cymorth sgiliau astudio a dysgu, cymorth arbenigol a sesiynau galw heibio i gefnogi dysgwyr yn eu gweithgareddau dysgu ac addysgu. Byddwn yn parhau i ariannu ein grŵp SoCom, sy'n darparu cymorth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol a chyfathrebu. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig ein cefnogaeth lwyr i ymgyrchoedd UCM Cymru yn cynnwys wythnos Iechyd Meddwl a Lles, a darparu mynediad i'n tîm penodedig o Gynghorwyr Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Cwnsela.

Byddwn yn parhau i adolygu ac adnewyddu deunyddiau marchnata a chyhoeddiadau er mwyn sicrhau cynnwys grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, a datblygu adnoddau i gefnogi dysgwyr wrth i raglenni astudio a chyfleoedd newydd ddod i'r amlwg. Ceisiwn sicrhau bod ein platfformau dysgu ac addysgu a systemau cymorth yn gynhwysol a phriodol, gan hyrwyddo cydraddoldeb i staff a dysgwyr â nodweddion gwarchodedig a thargedu cynrychiolaeth annigonol drwy'r Cynllun hwn. Cefnogwn amcanion fframwaith Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall ar draws y Brifysgol drwy hyrwyddo cyfle cyfartal i staff a dysgwyr LHDT, er enghraifft drwy gynnal asesiadau effaith, sicrhau bod y lluniau a ddefnyddiwn mewn deunyddiau dysgu a chyhoeddusrwydd yn gynhwysol a thrwy hyrwyddo perthnasoedd gwaith agos rhwng Undeb y Myfyrwyr, Gwasanaethau Myfyrwyr a'r Adran Profiadau Myfyrwyr er mwyn darparu sylfaen cyfarwyddyd gadarn.

Yn rhan o ddatblygu cymuned ddysgu gynhwysol a chefnogol, parheir i gynnig cymorth cymheiriaid. Mae ein cynllun Sesiynau Astudio gyda Chymorth Cymheiriaid (PASS) wedi bod yn ei le er 2015/16 ac mae'n rhedeg ar draws ystod eang o feysydd pwnc. Mae 73 o fyfyrwyr wedi'u hyfforddi'n arweinwyr PASS ers cyflwyno'r cynllun. Dengys tystiolaeth fod rhaglen PASS yn arbennig o ddefnyddiol fel modd o ddarparu cymorth ar gyfer dysgwyr aeddfed sy'n dychwelyd i addysg, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau ei bod yn parhau i lwyddo.

Mae ein Strategaeth Cadw Myfyrwyr wedi'i llunio'n ofalus i sicrhau bod yr unigolion a'r grwpiau sydd fwyaf tebygol o adael addysg uwch yn cael eu dynodi'n gywir, er mwyn ein galluogi i deilwra cymorth yn unol â hynny. Byddwn yn parhau i adolygu ac adnewyddu ein dadansoddeg dysgu er mwyn dynodi'r grwpiau sydd â'r risg uchaf o adael addysg uwch, er mwyn llywio a theilwra ein gwasanaethau cymorth myfyrwyr yn y ffordd orau. Mae thema gyfoethogi 'cadw myfyrwyr a chyrhaeddiad' wedi bod yn rhedeg ar draws y Drindod Dewi Sant rhwng 2016 a 2018, thema a ddewiswyd i wella ein perfformiad mewn perthynas â pharhad ac ystadegau deilliannau rhagamcanol. Yn rhan o'r prosiect cyffredinol hwn, mae deugain prosiect ffurfiol yn eu lle, a gynigiwyd gan staff ar draws pob disgyblaeth, uned a safle, gyda digwyddiadau canolog a drefnir ar hyd y ddwy flynedd i ddarparu cymorth ar gyfer staff a monitro cynnydd ac effaith y prosiectau'n fanwl. Mae'r prosiectau'n cwmpasu asesu ac adborth, cynefino, dadansoddeg dysgu, cymorth cymheiriaid, dulliau addysgu bloc, a dulliau addysgu cynhwysol. Cychwynnodd y gwaith lledaenu a chychwyn cynlluniau peilot yn 2017/18 a bydd y broses yn parhau.

Mae ein dysgwyr wedi rhoi gwybod i ni y gellid gwneud gwelliannau pellach yn ein dull o godi ymwybyddiaeth am y bwrsariaethau a'r ysgoloriaethau sydd ar gael a phwy sy'n gymwys amdanynt; yn ein hesboniad o gostau llawn astudio; ac yn y dyluniad o'r amserlen a'r oriau agor gyda golwg ar anghenion penodol dysgwyr rhan amser a hyblyg. Cymerir camau mewn ymateb i'r adborth hwn: er enghraifft, mae gwaith ar droed i wella dulliau cyhoeddi gwybodaeth ynghylch ffynonellau cyllid a hygyrchedd yr wybodaeth honno; ac mae'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi a gymeradwywyd yn ystod gwanwyn 2018, yn gosod amcan o sicrhau mynediad cyfartal i adnoddau dysgu ar gyfer dysgwyr o ystod eang o gefndiroedd ac ag anghenion amrywiol.

**Mae targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 sy'n cefnogi ein hamcanion 'Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf' fel a ganlyn (darperir manylion yn Nhabl G):**

- Cynyddu nifer y dysgwyr israddedig sy'n astudio'n rhan amser.
- Cynnal canran y dysgwyr israddedig aeddfed sy'n astudio'n rhan amser.
- Cynnal canran y dysgwyr cofrestredig sy'n byw yng Nghymru o ddau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru.
- Cynnal canran y dysgwyr sy'n llwyddo i gyflawni dyfarniad y Dystysgrif AU Sgiliau ar gyfer y Gweithle.
- Lleihau canran y dysgwyr israddedig llawn amser nad ydynt bellach mewn addysg uwch yn dilyn eu blwyddyn mynediad.
- Lleihau canran y dysgwyr israddedig rhan amser nad ydynt bellach mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl eu blwyddyn mynediad.
- Cadw canran y dysgwyr israddedig llawn amser sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl uwchben y meincnod.
- Cyflawni neu ragori ar ein sgôr feincnod am foddhad cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

## 4.2 Rhagoriaeth mewn Addysgu, Ysgolheictod ac Ymchwil Cymhwysol

Mae ymrwymiad i ragoriaeth academaidd sy'n sicrhau llwyddiant ein dysgwyr yn sylfaenol i gyflawni ein Cenhadaeth. Ein nod yw darparu addysgu o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar ysgolheictod, ymchwil ac arfer proffesiynol staff, ac a gyflwynir trwy ddulliau sy'n ennyn diddordeb ac yn herio ein dysgwyr. Lluniwyd ein Cynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi cyflawni'r agwedd hon ar ein cyfeiriad strategol.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

| Amcanion y Drindod Dewi Sant | Categorïau Buddsoddi Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Darparu addysgu ardderchog ac ysgogol ar draws yr holl raglenni astudio, sy'n seiliedig ar ysgolheictod ac arfer proffesiynol staff. | **a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**b2** gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr. |
| Cynnig rhaglenni academaidd atyniadol a pherthnasol sy'n galluogi ein dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith a sicrhau y gallant, yn eu tro, wneud cyfraniad uniongyrchol i les a ffyniant eu cymunedau. | **a8** cefnogi symudiad tuag at waith neu astudio pellach ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch;<br>**b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |
| Datblygu i'r eithaf gyfleoedd i'r holl staff a'r dysgwyr gymryd rhan mewn ysgolheictod, arfer proffesiynol, ymchwil cymhwysol a gweithgareddau masnacheiddio. | **b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |
| Cynnal safonau academaidd uchel ein dyfarniadau, a pharhau i gymryd rhan mewn asesiadau allanol o ran rhagoriaeth addysgu. | **a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**b2** gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr. |
| Gweithio mewn partneriaeth â'n dysgwyr i'w hannog i fynd i'r afael yn llawn â'u rhaglenni astudio ac i gymryd rhan lawn yn ein prosesau penderfynu. | **a4** cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr;<br>**a7** darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**b2** gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr. |

**Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn yn ystod 2019/20, gwnawn y canlynol:**

- Cyflawni'r ymrwymiadau a nodir yn ein Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi, sy'n disgrifio sut y nodweddir dysgu ac addysgu yn y Drindod Dewi Sant gan bedair egwyddor allweddol: cydweithredol; wedi'u teilwra'n bersonol; cynhwysol; ac â ffocws proffesiynol.
- Gweithio gyda chyflogwyr, diwydiant a chymunedau er mwyn sicrhau bod ein rhaglenni'n rhoi'r hyder, y sgiliau a'r cymwysterau i'n graddedigion i gael gwaith ar ôl astudio ar lefel raddedig.
- Sicrhau y rhoddir cymorth a chyngor priodol i ddysgwyr ar hyd eu taith academaidd i'w caniatáu i wireddu eu dyheadau o ran gyrfa.

Mae'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr (NSS) ac Arolwg Ymgysylltiad y Deyrnas Unedig (UKES) yn darparu gwybodaeth werthfawr am deimladau ein dysgwyr ynghylch eu profiadau dysgu ac addysgu. Dadansoddir y canlyniadau'n fanwl er mwyn dysgu o'r materion a godir, er mwyn sicrhau y rhennir arfer daar draws ein disgyblaethau academaidd, ac er mwyn hwyluso diwylliant o wella parhaus. Ystyriwn yr adborth o safbwynt cydraddoldeb ac amrywiaeth a rhoddwn sylw manwl hefyd i'r canlyniadau a gyflawnir gan sefydliadau eraill er mwyn dysgu oddi wrth arfer gorau. Er mwyn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yn hyn byddwn yn archwilio ein prosesau cyfredol ac yn rhannu arfer gorau ar draws ein cyfadrannau er mwyn sicrhau yr ystyrir adborth myfyrwyr wrth ddatblygu ac adolygu rhaglenni a modylau. Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o gyfathrebu adborth llais y myfyrwyr, ac yn darparu rhaglen o hyfforddiant ynghylch ymgysylltu â myfyrwyr. I gefnogi dysgu ac addysgu sydd wedi'u teilwra'n bersonol byddwn yn datblygu adnoddau arfer gorau ynghylch defnyddio asesu ffurfiannol a lunnir gan fyfyrwyr. Mae metrigau TEF wedi darparu offeryn ar gyfer dadansoddi ein perfformiad ymhellach o ran grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ac maent wedi creu ysgogiad newydd ar gyfer datblygu dulliau o fesur effaith ein haddysgu. Bydd y gwaith hwn yn parhau wrth i ni baratoi ar gyfer cyflwyno TEF ar lefel bynciol.

Er 2014/15 rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran camau a dargedwyd i wella cyflogaeth a chyflogadwyedd ein dysgwyr. Mae ein cyfraddau ar gyfer cyflogaeth graddedigion wedi rhagori ar dargedau, gyda chynnydd rhwng 2014/15 a 2015/16 o 92.1% i 95.6% (y gyfradd gyfartalog yng Nghymru yw 94.9%). Dros yr un cyfnod, mae canran ein graddedigion sy'n gweithio mewn swyddi rheoli neu broffesiynol, wedi codi o 56.6% i 64.5%. Adroddir ar fusnesau newydd gan ein graddedigion yng nghanlyniadau'r arolwg HE-BCI, gyda 88, yn erbyn targed o 35, yn 2016/17. Ceisiwn wella'n barhaus yn y meysydd hyn, gyda ffocws penodol ar gynyddu niferoedd y graddedigion mewn galwedigaethau proffesiynol/ rheoli. Gwnawn hyn drwy sicrhau yr ymgorfforir sgiliau â ffocws ar gyflogaeth ar draws yr holl raglenni a modylau. Parheir i ddefnyddio buddsoddi o'r Cynllun Ffioedd a Mynediad i ariannu ystod o fentrau'n cynnwys y fframwaith Dylunio Bywyd, rhaglen arloesol o weithdai sydd wedi bod ar gael i'r holl ddysgwyr Lefel 4 er 2015/16. Lluniwyd y rhaglen i godi hyder a dyheadau, ac i alluogi dysgwyr i ddatblygu CV cryf a phortffolio o brofiadau a chymwysterau ar hyd eu hastudiaethau. Mae mwy na 700 o ddysgwyr yn mynd i'r afael â Dylunio Bywyd bob blwyddyn ac mae llawer yn adrodd yn ôl fod y rhaglen wedi rhoi cyfle iddynt adfyfyrio ar eu nodau. Yn yr un modd, byddwn yn defnyddio cyllid i gefnogi addewid ar y cyd ag Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin; cefnogi Cyfamod y Lluoedd Arfog; darparu cyfleoedd ar gyfer busnesau newydd gan raddedigion drwy fentrau megis y Swigen Greadigol; a hwyluso lleoliadau gwaith i ddysgwyr ar draws pob cyfadran. Hefyd byddwn yn parhau i ddarparu cynghorwyr gyrfaoedd ar bob campws i gefnogi dysgwyr mewn amgylchedd un-i-un, yn ogystal â grwpiau mwy o faint. Mae dadansoddi data wedi arwain at fwy o dargedu a dulliau wedi'u gwahaniaethu ar gyfer cymorth gyrfaoedd, yn cynnwys 'Gwersylloedd Cyflogadwyedd Dwys' ar lefel rhaglen, gyda'r nod o gynyddu hyder dysgwyr, cefnogi creu delwedd broffesiynol a gwella technegau rhwydweithio allanol. Bydd y Gwasanaeth Gyrfaoedd hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr o ran cynllunio a darparu ystod o ddigwyddiadau arloesol yn cynnwys y Ffair Dinasyddiaeth

Fyd-eang, y Ffair Llesiant a hanfodion cyflogadwyedd i ddysgwyr y flwyddyn gyntaf.

Byddwn yn parhau i osod ffocws cryf ar weithio mewn cydweithrediad â chyflogwyr a diwydiant, a thrwy'r cwricwlwm byddwn yn darparu cyfleoedd priodol i ddysgwyr gael profiadau proffesiynol gwerthfawr drwy leoliadau gwaith, profiad gwaith, interniaethau, prosiectau diwydiant byw, gwirfoddoli sydd wedi'i ymgorffori neu systemau tebyg. Hefyd wrth ymgynghori er mwyn llywio cyfeiriad datblygiadau sefydliadol allweddol, rydym wedi ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid busnes a dinesig, trafodaethau sy'n dwyn buddion ehangach yn gysylltiedig yn uniongyrchol â dysgu ac addysgu. Er enghraifft, mae adeiladu Datblygiad Glannau Abertawe a datblygiad Canolfan S4C Yr Egin yng Nghaerfyrddin yn darparu sgiliau proffesiynol pwysig ar y safle ar gyfer dysgwyr ar raglenni'n gysylltiedig ag adeiladu, yn ogystal â chyfleoedd am swyddi, prentisiaethau a lleoliadau gwaith. Byddwn yn parhau i gefnogi mentrau o'r fath.

O ran gwirfoddoli'n fwy cyffredinol, rydym yn cefnogi'r dulliau a nodir yn adroddiad yr UUK ac UCM Breaking down the barriers to Student Opportunities and Youth Social Action (2015). Byddwn yn parhau i ddarparu cyllid ar gyfer Undeb y Myfyrwyr i gefnogi gweithgarwch dan arweiniad myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr yn cynnig portffolio esblygol o gyfleoedd dan arweiniad myfyrwyr yn cynnwys clybiau, cymdeithasau a phrosiectau gwirfoddoli; mae manylion ar gael yn www.tsdsu.co.uk. Mae llwyddiannau diweddar yn cynnwys gwobr gan UCM Cymru yn 2018 ar gyfer y digwyddiad 'Codi Llais' gan Gymdeithas LHDT+ Llambed a drafodai a herio homoffobia cymdeithasol, a'r prosiect 'Dewch i Blannu', dan arweiniad y Gymdeithas Amgylcheddol yn Abertawe, lle gwelwyd dysgwyr yn plannu mwy na 800 o goed dros ddwy flynedd yn rhan o brosiect i adfer cae a ddefnyddiwyd gynt ar gyfer anifeiliaid yn pori, a'i droi'n ôl yn goetir. Hefyd mae dysgwyr yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn prosiectau gwirfoddol rheolaidd drwy Undeb y Myfyrwyr, sydd (gan gofio rhwystrau i gyfranogiad) yn cynnal gweithgareddau gwirfoddoli rheolaidd ac achlysurol i annog a galluogi cynifer o ddysgwyr â phosibl i gymryd rhan. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae gweithgareddau o'r fath wedi cynnwys casglu sbwriel mewn cymunedau, gwirfoddoli gydag elusennau lleol, a chynllunio a chydlynu taith gerdded i fyny Pen-y-fan yn rhan o ymrwymiad i iechyd a llesiant myfyrwyr. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi datblygu hyfforddiant penodol i gefnogi datblygiad dysgwyr sy'n arwain y gweithgareddau hyn, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut gall arweinwyr o blith y myfyrwyr adnabod a lleihau effaith rhwystrau i gyfranogiad. Mae lleihau'r rhwystrau hyn yn nodwedd ganolog o Gynllun Strategol Undeb y Myfyrwyr 2018-2021, sydd i gael ei lansio ym mis Medi 2018.

Mae ein dysgwyr wedi rhoi gwybod i ni y byddent yn gwerthfawrogi cyfleoedd pellach i ymgysylltu â chyflogwyr a chyfarwyddyd gyrfaoedd ynghylch llwybrau cyflogaeth posibl; a threulio cyfnodau hirach ar leoliadau. Nodir ein camau arfaethedig i sicrhau y bydd dysgu ac addysgu'n parhau i fod â ffocws proffesiynol yn y Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi.

**Mae targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 sy'n cefnogi ein hamcanion 'Rhagoriaeth mewn Addysgu' fel a ganlyn (darperir manylion yn Nhabl G):**

- Cyflawni gwelliant parhaus yn ein perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr mewn mesurau sy'n ymwneud yn benodol ag ansawdd yr addysgu a'r her i'r dysgwr.
- Cynyddu nifer ein graddedigion mewn galwedigaethau rheoli neu broffesiynol.

**4.3 Creu Cyfleoedd trwy Bartneriaethau**

Cydnabyddwn fod creu cyfleoedd drwy bartneriaethau'n hanfodol er mwyn hyrwyddo cyfle cyfartal ac addysg uwch, a galluogi ein dysgwyr i wireddu eu potensial llawn. Rydym yn hyrwyddo cysylltiadau rhwng addysg bellach ac uwch i greu llwybrau unigryw i wella sgiliau, er budd ein dysgwyr, eu cymunedau a'r economi. Yn benodol, rydym wedi ymrwymo i bartneriaethau â diwydiant, darparwyr addysg a sefydliadau cenedlaethol yng Nghymru a thu hwnt. Lluniwyd ein Cynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi cyflawni'r agwedd hon ar ein cyfeiriad strategol.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

| Amcanion y Drindod Dewi Sant | Categorïau Buddsoddi Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Datblygu a gwella ein partneriaethau a'n cydffederasiynau gyda sefydliadau eraill, i gynyddu cyfleoedd i'r eithaf o ran addysg uwch a dilyniant i ddysgwyr. | **a8** cefnogi symudiad tuag at waith neu astudio pellach ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch;<br>**b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |
| Parhau i weithio'n agos gyda chyflogwyr rhanbarthol i ddynodi meysydd angen ac i ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig, yn cynnwys trwy gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith a Phartneriaethau Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol. | **a8** cefnogi symudiad tuag at waith neu astudio pellach ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch;<br>**b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b6** codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |
| Parhau i gyfoethogi ein portffolio o ddyfarniadau galwedigaethol a thechnegol, yn cynnwys trwy ddatblygu prentisiaethau lefel uwch. | **a8** cefnogi symudiad tuag at waith neu astudio pellach ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym maes addysg uwch;<br>**b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru;<br>**b6** codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr. |

**Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn yn ystod 2019/20, gwnawn y canlynol:**

- Darparu llwybrau dilyniant di-dor o addysg bellach i addysg uwch a gwella cyfleoedd i ddysgwyr astudio ar gampysau'r Brifysgol.
- Annog dysgwyr i ehangu sgiliau i gynyddu dewisiadau o ran cyflogaeth.
- Datblygu cyfres o Brentisiaethau Uwch sy'n diwallu bylchau sgiliau rhanbarthol.
- Darparu cyfleoedd academaidd a hyfforddi newydd mewn partneriaeth â'r diwydiannau creadigol.

Un o brif nodau Grŵp y Drindod Dewi Sant yw darparu llwybrau dilyniant di-dor o addysg bellach i addysg uwch, er mwyn annog dysgwyr i ehangu eu sgiliau ac, yn y pendraw, cynyddu dewisiadau o ran cyflogaeth. Er y ffurfiwyd y Grŵp yn gymharol ddiweddar, ceir tystiolaeth gynhwysfawr eisoes o effaith ein gwaith ar draws ffiniau traddodiadol addysg bellach ac addysg uwch mewn model sector deuol integredig, ar ddysgwyr. Mae ystadegau dilyniant ar gyfer cyfnod yr adolygiad yn dangos cynnydd eglur mewn niferoedd sy'n symud ymlaen o fewn Grŵp y Drindod Dewi Sant, o 108 yn 2014/15, i 240 yn 2015/16 a 326 yn 2016/2017. Er mwyn hwyluso a chynyddu dilyniant ymhellach, mae'r Grŵp yn gweithio ar ddatblygu campws dysgu gydol oes yng Nghaerfyrddin er mwyn dod ag ystod o feysydd pwnc cytras at ei gilydd a bydd yn parhau i ddatblygu rhaglenni lle ceir cydweithrediad agos iawn rhwng y colegau a'r Brifysgol yn nhermau cyflwyno rhaglenni a rhannu cyfleusterau. Mae mentrau'n gysylltiedig â sgiliau a chyflogadwyedd (megis Dylunio Bywyd, ymgorffori sgiliau'n gysylltiedig â chyflogaeth wrth lunio rhaglenni, lleoliadau gwaith, interniaethau a gwirfoddoli) yr un mor berthnasol i'n rhaglenni a gyflwynir yn y colegau yn y Grŵp. Byddwn hefyd yn parhau i fuddsoddi cyllid y Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn bwrsariaethau ar gyfer dysgwyr sy'n symud ymlaen o fewn Grŵp y Drindod Dewi Sant.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â thri choleg addysg bellach yng Nghymru y tu allan i Grŵp y Drindod Dewi Sant i ddarparu cyfleoedd ychwanegol i gymunedau fanteisio ar addysg uwch. Rydym wedi gosod targedau i'n hunain gynyddu niferoedd ein dysgwyr yn y categori hwn. Mae dysgwyr wedi rhoi gwybod i ni eu bod yn gwerthfawrogi, ac y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd am addysgu a gyflwynir ar gampysau'r Brifysgol fel modd o gyfoethogi'u profiad addysg uwch yn gyffredinol, ac y byddent yn gwerthfawrogi creu ardaloedd addysg uwch penodedig ychwanegol o fewn eu sefydliadau. Byddwn yn archwilio'r materion hyn ymhellach gyda'n partneriaid.

Cydnabyddwn gyd-destun economaidd heriol de Cymru a chymerwn o ddifrif ein dyletswydd ddinesig i weithio'n agos â chyflogwyr rhanbarthol er mwyn dynodi meysydd angen a datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig. Enghraifft ddiweddar o waith o'r fath yw adeilad £6.5 miliwn newydd Canolfan Arloesi Adeiladwaith Cymru gan y Drindod Dewi Sant a CITB Cymru, canolfan hyfforddi unigryw i Gymru gyfan sy'n rhan o Ddatblygiad Glannau Abertawe. Er mis Medi 2016, mae hyfforddiant pwrpasol ac arbenigol wedi'i ddarparu ar gyfer pob sector a lefel o fewn y diwydiant adeiladu yng Nghymru ac eisoes mae mwy na 1200 o ddysgwyr wedi'u hyfforddi cyn agor y campws newydd.

I ddysgwyr israddedig, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar greu cwricwlwm â ffocws proffesiynol, gydag achredu allanol lle bo'n briodol; ar ymgorffori cyflogadwyedd ar draws y cwricwlwm; ac ar ymgorffori cyflogadwyedd a sgiliau menter o fewn profiadau myfyrwyr yn gyffredinol drwy arlwy cryf a chydlynol o gyfleoedd ychwanegol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byrddau sgiliau i gynnig rhaglenni sy'n darparu'r sgiliau penodol sydd eu hangen ar gyflogwyr a datblygu poblogaeth fedrus iawn. Er 2017/18 mae hyn wedi cynnwys cyfle i ddysgwyr ymgymryd â 'Thystysgrif Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ychwanegol yn seiliedig ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae pob portffolio academaidd wedi'i adolygu'n systematig a nifer sylweddol o raglenni astudio proffesiynol wedi'u datblygu mewn cysylltiad agos â chyflogwyr er mwyn mynd i'r afael â bylchau sgiliau cydnabyddedig. Mae nifer y Cyrff Proffesiynol, Statudol a Rheoleiddio (PSRB) y mae'r Brifysgol yn gweithio â nhw wedi cynyddu'n gyson; mae achrediadau diweddar yn cynnwys y rheini'n gysylltiedig â'n portffolio Gwasanaethau Cyhoeddus (drwy'r Coleg Plismona) a Nyrsio Milfeddygol yng Ngholeg Sir Gâr (drwy Goleg Brenhinol y Milfeddygon). Byddwn yn parhau i gynyddu a chyfoethogi ein harlwy academaidd yn y meysydd hyn yn rhan o'n strategaeth i gyfoethogi sgiliau a chyflogadwyedd ein dysgwyr. Wrth baratoi ar gyfer agoriad Canolfan S4C Yr Egin[6] ar gampws Caerfyrddin ym mis Medi 2018, rydym yn rhoi pwyslais arbennig ar sgiliau i'r diwydiannau creadigol a digidol. Byddwn yn gweithio'n agos â S4C a thrigolion eraill yr Egin i greu cyfleoedd academaidd a hyfforddi newydd i'n dysgwyr a'n cymunedau ehangach.

Gan adeiladu ar lwyddiant Coleg Sir Gâr o ran sgiliau a phrentisiaethau uwch a gradd-brentisiaethau, sefydlwyd Uned Prentisiaethau i Grŵp y Drindod Dewi Sant yn 2016/17 gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd ychwanegol am fynediad i addysg uwch, ac i yrru'r gwaith o ehangu'r sgiliau lefel uwch sydd ar gael ac sy'n angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygiad economaidd. Bydd Prifathro Coleg Sir Gâr yn cychwyn swydd fel Pro Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am sgiliau a dysgu gydol oes ym mis Awst 2018. Cydnabyddwn bwysigrwydd allweddol prentisiaethau o ran darparu llwybrau cyflogaeth newydd i ddysgwyr a byddwn yn parhau i fuddsoddi cyllid y Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn datblygu a darparu Prentisiaethau Uwch, gan osod targed ar gyfer 2019/20.

**Mae targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 sy'n cefnogi ein hamcanion 'Creu Cyfleoedd drwy Bartneriaethau' fel a ganlyn (darperir manylion yn Nhabl G):**

- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach y **tu fewn** i Grŵp y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach y **tu allan** i Grŵp y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.
- Cynnydd yn y nifer o raglenni achrededig, a rhaglenni a ddatblygir mewn cydweithrediad â chyflogwyr neu mewn ymateb i alw gan gyflogwyr.
- Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n astudio ar brentisiaethau lefel uwch o fewn Grŵp y Drindod Dewi Sant.

[6] Mae Canolfan S4C Yr Egin yn ganolfan greadigol a digidol sylweddol a leolir ar gampws Caerfyrddin ac a fydd yn agor ym mis Medi 2018. Bydd yn gartref i brif bencadlys S4C yn ogystal â nifer o gwmnïau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn y diwydiannau creadigol a digidol.

### 4.4 Prifysgol i Gymru

Mae ein lleoliad yn sylfaenol i'n hunaniaeth, ein hanes a'n huchelgeisiau. Yn sail i'n holl weithgareddau mae ymrwymiad i ddiwylliant, treftadaeth ac iaith Cymru, ac i wella'i lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol. Ni sydd â'r ganran uchaf o ddysgwyr o Gymru o blith yr holl SAU uwch yng Nghymru, a gweithiwn mewn amgylchedd dwyieithog lle anogir a chefnogir staff a dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau iaith. Cydnabyddwn a dathlwn safle unigryw Grŵp y Drindod Dewi Sant o fewn ei gymunedau, a cheisiwn ddatblygu i'r eithaf y cyfleoedd addysgol a diwylliannol i'n dysgwyr cyfredol a chenedlaethau'r dyfodol. Lluniwyd ein Cynllun Ffioedd a Mynediad i gefnogi cyflawni'r agwedd hon ar ein cyfeiriad strategol.

Mae ein hamcanion fel a ganlyn:

| Amcanion y Drindod Dewi Sant | Categorïau Buddsoddi Llywodraeth Cymru |
|---|---|
| Cyfrannu at fwrlwm diwylliant, celfyddydau gweledol a threftadaeth Cymru a'r iaith Gymraeg trwy barhau i ddarparu addysg a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sy'n annog cyfranogiad cymunedol yn y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. | **a1** hyrwyddo a diogelu mynediad teg at addysg uwch, yn cynnwys adnabod unigolion sydd â'r potensial mwyaf o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a2** denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol;<br>**a5** gwella'r profiad o addysg uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |
| Cyfrannu at ffyniant, diogelwch a chydnerthedd Cymru trwy hyrwyddo sgiliau creadigol, entrepreneuriaeth a hybiau technoleg, a thrwy gefnogi ein graddedigion i ddechrau eu busnesau eu hunain. | **b1** darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru;<br>**b3** cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru. |

**Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn yn ystod 2019/20, gwnawn y canlynol:**

- Gweithio mewn partneriaeth agos â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn gosod targedau i ddysgwyr cyfrwng Cymraeg, ac i hwyluso mynediad gan staff a dysgwyr i'r cyfleoedd hyfforddi a ddarperir drwy'r Coleg.
- Drwy'r Athrofa Addysg, cefnogi athrawon i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Datblygu ein cysylltiadau â S4C a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach, a darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddysgu a gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i ymgorffori cyflogadwyedd a sgiliau menter o fewn y cwricwlwm, a darparu cefnogaeth i yrru entrepreneuriaeth.

Mae ein targedau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ymateb i agenda Llywodraeth Cymru i hyrwyddo twf a'r defnydd o'r Gymraeg. Mae cyd-leoliad campws Caerfyrddin y Brifysgol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Canolfan Peniarth, pencadlys S4C a Chanolfan Gymraeg Caerfyrddin yn rhoi llwyfan unigryw i ni fynd â'r agenda hon yn ei blaen. Bydd ein gweithgareddau i gyflawni'r targedau'n cynnwys amrywiaethu a thwf parhaus yn y cwricwlwm, yn benodol er mwyn annog mwy o ddysgwyr i ymgymryd â 40 credyd neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygiadau drwy'r Athrofa Addysg i gynyddu niferoedd y dysgwyr ar ein rhaglenni hyfforddi athrawon achredig, ac felly cefnogi ehangu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn hefyd yn parhau i weithio'n agos â phartneriaid i ddarparu cyrsiau sabothol o ansawdd uchel a hyd amrywiol ar gyfer athrawon a chynorthwywyr dysgu ar draws de-orllewin Cymru, a chryfhau'r ddarpariaeth Cymraeg a'r hyfforddiant ym meysydd y Gymraeg o fewn y rhaglen BA Addysg Blynyddoedd Cynnar.

I gefnogi ac annog ein dysgwyr, byddwn yn parhau i fuddsoddi cyllid y Cynllun Ffioedd a Mynediad mewn ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog er mwyn annog dysgwyr rhan amser i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, sesiynau gyrfaoedd cyfrwng Cymraeg, adnoddau gyrfaoedd dwyieithog ar y we a digwyddiadau ymgyfarwyddo Cymraeg i ddarpar ddysgwyr a dysgwyr newydd. Byddwn hefyd yn parhau i gynnig y Dystysgrif Sgiliau Iaith a rhoi modylau 5 credyd ar gael a luniwyd i wella sgiliau Cymraeg siaradwyr y Gymraeg yn y gweithle, a galluogi dechreuwyr i ddysgu am ddwyieithrwydd yn y gweithle ac ymadroddion sylfaenol.

Mae ein dysgwyr wedi rhoi gwybod i ni yr hoffent gael mynediad i fwy o adnoddau cyfrwng Cymraeg, megis meddalwedd arbenigol, i gefnogi'u hastudiaethau. Byddwn yn mynd â'r mater hwn yn ei flaen drwy'r Strategaeth Dysgu, Addysgu a Chyfoethogi mewn partneriaeth â Chanolfan Peniarth. Maent hefyd wedi nodi'r angen i greu mwy o ymwybyddiaeth ymhlith dysgwyr am y bwrsariaethau sydd ar gael. Byddwn yn ceisio ymateb i hyn drwy gyhoeddusrwydd a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth am fwrsariaethau, yn ogystal â hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg.

Mae datblygu graddedigion â sgiliau entrepreneuraidd cryf yn amcan allweddol i ni, a byddwn yn parhau i hyrwyddo creu menter drwy ein Canolfan Entrepreneuriaeth, sy'n darparu canolbwynt o weithgarwch rhyngddisgyblaethol i rymuso timau'r Drindod Dewi Sant i helpu dysgwyr, graddedigion, staff a'n cymuned fusnes i ddatblygu eu syniadau a'u cyfleoedd eu hun, a'u gyrru yn eu blaen. Ein nod yw ymgysylltu'n flynyddol â 3000 o ddysgwyr, grymuso 300, a galluogi 30 busnes i gychwyn. Mae enghreifftiau o fentrau â ffocws ar fentergarwch yn cynnwys rhaglen y Swigen Greadigol, sef menter ar y cyd ag Ardal Gwella Busnes Abertawe. Ei nod yw cael effaith economaidd gadarnhaol yn Abertawe, annog meddwl yn entrepreneuraidd, ac arwain at fwy o fusnesau newydd. Byddwn yn parhau i gymryd rhan yn yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang, pryd y cynhelir nifer o ddigwyddiadau ar draws pob campws. O ran busnesau newydd, byddwn yn parhau i weithio'n agos â rhanddeiliaid megis Llywodraeth Cymru, Busnes mewn Ffocws, Indycube a Tech Hub i gynyddu'r adnoddau i'r eithaf a chreu seilwaith cynaliadwy. At hynny, bydd ein campws yn SA1 yn cynnwys y 'Pentref Blychau' a fydd yn darparu mannau hyblyg, fforddiadwy ar gyfer cwmnïau newydd er mwyn dod â dysgwyr, academyddion a busnesau at ei gilydd. Yn yr un modd, bydd datblygiad yr Egin yn darparu lle i raddedigion sy'n dymuno sefydlu eu busnesau creadigol eu hun o fewn cyd-destun dwyieithog.

**Mae targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad 2019/20 sy'n cefnogi ein hamcanion 'Prifysgol i Gymru' fel a ganlyn (darperir manylion yn Nhabl G):**

- Cynnal nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnal nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynnydd yn nifer y cwmnïau newydd gan raddedigion.

# 5. Cymorth Ariannol i'n Dysgwyr

Er 2014/15, mae oddeutu £1m wedi'u dosbarthu'n flynyddol drwy becyn bwrsariaethau ac ysgoloriaethau'r Brifysgol. Dosbarthwyd 3087 o fwrsariaethau ac ysgoloriaethau yn 2016/17, gwerth cyfanswm o £1,210,590. Mae'r pecyn cyfredol (ar gyfer 2018/19) yn darparu cronfeydd o fwy na £1m i gefnogi dysgwyr israddedig llawn amser a rhan amser o'r DU a'r UE.

Mae ein pecyn bwrsariaethau cyfredol wedi'i lunio gan ddau adolygiad. Ymgymerwyd â'r adolygiad cyntaf mewn ymateb i Adroddiad Ansawdd Academaidd blynyddol Undeb y Myfyrwyr a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2016, ac ailgyfeiriwyd cyfran o'r cyllid i gwmpasu costau ychwanegol argraffu, trafnidiaeth, adnoddau academaidd a theithiau perthnasol neu leoliadau. Yn sgil ail adolygiad yn 2017/18 cafwyd mireinio pellach i becyn y bwrsariaethau.

**Mae nodweddion allweddol y pecyn cyfredol yn cynnwys:**

- Ysgoloriaethau newydd yn seiliedig ar y cyfadrannau a ddarperir ymhob un o'r pum cyfadran er mwyn hwyluso recriwtio, dilyniant, cadw myfyrwyr a chyflawniad.
- Ysgoloriaethau newydd yn y Gyfadran Pensaernïaeth, Cyfrifiadura a Pheirianneg i hyrwyddo ymhellach ddilyniant o addysg bellach i addysg uwch.
- Bwrsariaethau dilyniant newydd yn y Gyfadran Busnes a Rheolaeth a'r Athrofa.
- Darparu bwrsariaethau Tyst AU i ymgeiswyr i'r rhaglenni Porth i'r Dyniaethau, Celf Sylfaen a STEM.
- Bwrsariaeth newydd i'r Lluoedd Arfog a ddyfernir i gyn-bersonél y lluoedd sy'n cofrestru ar flwyddyn gyntaf rhaglen israddedig yn y Drindod Dewi Sant.
- Cefnogaeth ariannol barhaus ar ffurf ysgoloriaethau a bwrsariaethau i gefnogi rhagoriaeth academaidd, dilyniant o golegau y tu fewn i Grŵp y Drindod Dewi Sant, dysgwyr preswyl, astudiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, gofal plant, astudio dramor ac astudio rhan amser.
- Cymorth ariannol parhaus i ymadawyr gofal, oedolion ifanc sy'n ofalwyr a dyfarniad i gefnogi dysgwyr anabl â chostau asesiadau diagnostig.
- Ystod o ddyfarniadau i gefnogi a chyfoethogi cyflogadwyedd yn cynnwys cyllid interniaethau a bwrsariaeth Uwch-sgilio newydd i gefnogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau ychwanegol.

Cydnabyddwn yr angen i fonitro effeithiolrwydd y pecyn bwrsariaethau i gefnogi cyflawni targedau ein Cynllun Ffioedd a Mynediad, ac i'w addasu o dro i dro i adlewyrchu datblygiadau yn ein darpariaeth academaidd. Byddwn yn adolygu'r pecyn cyfredol wrth baratoi am 2019/20, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu'n deg ar gyfer dysgwyr ymhob lleoliad ac, ar gais Undeb y Myfyrwyr, er mwyn creu darpariaeth ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n rhieni.

Sefydlwyd Cronfa Galedi'r Drindod Dewi Sant ym mis Medi 2015 ac mae â gwerth blynyddol o £200K. Gwnaethpwyd mwy na 400 o ddyfarniadau yn 2016/17. Mae'r gronfa'n cefnogi dysgwyr dan y categorïau canlynol: costau anabledd, llyfrau a chyfarpar, llety, gofal plant, trafnidiaeth, costau cyfleustodau, costau byw, dyledion pwysicaf, a benthyciadau cyllid myfyrwyr lle ceir oedi. Dosberthir mwyafrif y cyllid i ddysgwyr sydd angen cymorth dan y categorïau llety, costau cyfleustodau, costau byw, dyledion pwysicaf a benthyciadau cyllid myfyrwyr lle ceir oedi. Lle bo'n bosibl tynnir cymorth ar gyfer gofal plant, llyfrau a chyfarpar, trafnidiaeth a llety o'r pecyn bwrsariaethau, ond cefnogir rhai dysgwyr, yn benodol rhieni sengl, ar gyfer gwariant o'r fath o'r Gronfa Galedi. Mae gwasanaeth cynghori ariannol y Meddygon Arian ar gael i gefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed â cheisiadau cymhleth am fenthyciadau ac ailasesiadau, cyllidebu, a pharatoi cynlluniau talu ar gyfer ôl-ddyledion llety. Tynnwyd i lawr bron iawn £1m o Gyllid Myfyrwyr yn sgil gwaith achosion gan y tîm y llynedd.

Mae gwefan y Brifysgol yn darparu gwybodaeth ar gyfer dysgwyr a darpar ddysgwyr ynghylch ffioedd dysgu, costau ychwanegol astudio, cael mynediad i gyllid, bwrsariaethau ac ysgoloriaethau, a ffynonellau eraill ar gyfer cyngor a chymorth ariannol. Mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr, byddwn yn parhau i weithio ar wella'r wybodaeth rydym yn ei darparu.

# 6. Sut Caiff ein Cynllun ei Fonitro

Sefydlwyd y Pwyllgor Polisi Corfforaethol yn 2017/18 ac mae'n gyfrifol ar ran y Senedd am fonitro gweithredu'r Cynllun Ffioedd a Mynediad a goruchwylio'r broses gynllunio ac adrodd. Nod dosbarthu cyfrifoldeb am y Cynllun yn ffurfiol o fewn strwythur y pwyllgorau academaidd yw gwella'r broses fonitro, ac ymgorffori cydberchnogaeth ar dargedau'r Cynllun. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o Undeb y Myfyrwyr yn ogystal â'r cyfadrannau a'r gwasanaethau proffesiynol, ac mae'n darparu system ar gyfer craffu ar gynnydd a monitro adroddiadau. Ar lefel y corff llywodraethu, darperir yr adroddiadau monitro ar gyfer Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau'r Cyngor, sy'n goruchwylio paratoi a chyflwyno'r Cynllun Strategol a strategaethau ariannol a buddsoddi cysylltiedig ar ran y Cyngor. Ystyrir adroddiadau gan y Pwyllgor Strategaeth ac Adnoddau ymhob cyfarfod o'r Cyngor.

**At hynny, ystyrir a thrafodir materion penodol yn gysylltiedig â'r Cynllun Ffioedd a Mynediad sy'n berthnasol i'w cylch gwaith gan nifer o bwyllgorau eraill, yn cynnwys y canlynol:**

- Pwyllgor Polisi Academaidd a'i is-bwyllgorau: yr Is-bwyllgor Ehangu Mynediad ac Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Pwyllgor Materion Cymreig.
- Pwyllgor Cydraddoldebau Grŵp y Drindod Dewi Sant.
- Is-bwyllgor Arolygon a Thablau Cynghrair.

Cynrychiolir colegau Grŵp y Drindod Dewi Sant ar draws y strwythur pwyllgorau.

# Awdurdodi cais cynllun mynediad a ffioedd 2019/20 ar gyfer ei gyflwyno i CCAUC

**Wrth awdurdodi ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd i'w cyflwyno i CCAUC, bydd cyrff llywodraethu'n gwneud y canlynol:**

i. cadarnhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i darparu yn y cais cynllun mynediad a ffioedd hwn ar gyfer 2019/20 yn fanwl gywir wrth ei ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata y gellir eu dilysu.

ii. cadarnhau:
a. ei bod yn dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data ariannol, ansawdd a/neu arall sydd ganddo am ymgeisydd a reoleiddir ar hyn o bryd, pa un ai y darparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;

iii. deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i gynnal ymweliad ag ymgeiswyr er mwyn deall yn well y cymhwysedd cysylltiedig â'r sefydliad a'r rheolaeth ar faterion ariannol, a'r data a gyflwynwyd am gynlluniau mynediad a ffioedd ac ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, yr ymgeiswyr.

iv. deall bod rhaid iddo ddarparu i CCAUC a/neu asiant CCAUC wybodaeth, cymorth a mynediad i'r gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.

v. v. deall y gall CCAUC gynnal, neu drefnu i asiant gynnal, adolygiad perthnasol i ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran yr ymgeiswyr, a rhaid i gyrff llywodraethu ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan CCAUC neu'r corff a benodir gan CCAUC ar gyfer y diben hwn.


vi. cadarnhau bod yr holl addysg a ddarperir gan, neu ar ei ran, heb ystyried lefel neu leoliad y ddarpariaeth, wedi cael ei hystyried yn y ceisiadau cynlluniau ffioedd a mynediad.

vii. cadarnhau bod y sefydliad yn wynebu risg isel o fethu ar sail ariannol yn y tymor canolig i hir.

viii. cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig ac nad yw'r archwilydd cofrestredig yr un cwmni a/neu unigolyn â'r cwmni/unigolyn a baratodd y cyfrifon.

ix. deall bod rhaid i'r sefydliad gydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.

x. deall bod rhaid i unrhyw ymrwymiadau ariannol i fyfyrwyr a wnaed yng nghynllun mynediad a ffioedd gwreiddiol 2018/19, fel y cymeradwywyd gan CCAUC, gael eu hanrhydeddu.

| Cyflwyno cais cynllun mynediad a ffioedd 2019/20 i CCAUC[1] | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y corff llywodraethu: | Gorffennaf 19 2018 |
| Llofnod awdurdodedig y corff llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | Gorffennaf 19 2018 |

[1] Dim ond dyddiad y fersiwn terfynol a gyflwynwyd gan y corff llywodraethu a'i gymeradwyo gan CCAUC y gall cynlluniau mynediad a ffioedd a gyhoeddir ar wefannau sefydliadau ei gynnwys.

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2019/20**
**Tabl A: Lefelau ffioedd a buddsoddiad ac incwm o ffioedd, 2019/20**

| | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad: | Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant |
| UKPRN y sefydliad: | 10007858 |

Dylid cofnodi data perthnasol i gyrsiau Israddedigion llawn-amser a TAR (SAC) llawn-amser yr ydych yn eu rheoli, sy'n dod o dan y drefn ffioedd ôl-2012/13 yn 2019/20, yn y tabl hwn.

Os byddwch yn darparu cyrsiau sydd â blwyddyn allan, fel blwyddyn allan ar leoliad diwydiannol, neu flwyddyn dramor, a bod gwahanol lefelau o ffioedd yn cael eu codi am y blynyddoedd hyn, dylid ystyried hyn wrth gyfrif y ffi ar gyfartaledd a chyfanswm yr incwm ffioedd a gofnodir yn y tabl hwn.

Am ragor o arweiniad a'r diffiniadau a ddefnyddir yn y tabl hwn, edrychwch ar **Adran Pedwar** y cyfarwyddyd.

a) Beth yw cyfradd eich ffi arfaethedig uchaf ar gyfer y canlynol:

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 9,000 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |

b) A yw'r ffioedd arfaethedig yn a) (uchod) yn cael eu codi am bob darpariaeth israddedig a TAR (SAC) llawn-amser yn eich sefydliad neu a gânt eu darparu ar eich rhan?

| | Rhowch Ydy neu Nac ydy |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | Nac Ydy |
| TAR (SAC) llawn-amser | Ydy |

c) Os nad ydy, beth yw'r ffi gyfartalog (gymedrig) debygol i bob myfyriwr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser?

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 8,979 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 9,000 |
| Pob myfyriwr IG/TAR (SAC) llawn-amser yn y cynllun | 8,980 |

d) Pa incwm o gyfundrefn ffioedd ôl 2012/13 ydych chi'n disgwyl ei dderbyn yn 2019/20? Dylech gynnwys unrhyw incwm a dderbynnir fesul myfyriwr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser.

| | £ |
|---|---|
| Israddedigion llawn-amser | 58,724,000 |
| TAR (SAC) llawn-amser | 3,852,000 |
| **Cyfanswm** | **62,576,000** |

e) Rhowch fanylion am faint o incwm ffioedd rydych yn disgwyl ei fuddsoddi mewn perthynas â chyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch. Lle roedd gan ddarparwyr addysg uwch gynlluniau 2018/19 rhaid i'r gyfran o gyfanswm yr incwm a fuddsoddwyd yn 2019/20 fod o leiaf y gyfran a fuddsoddwyd yn 2018/19. Yn achos yr ymgeiswyr hynny, mae CCAUC wedi darparu islaw swm a chanran cyfanswm incwm 2018/19.

| | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm i'w fuddsoddi yn y canlynol | £ | % o gyfanswm yr incwm | £ | % o gyfanswm yr incwm |
| Cyfle cyfartal | 7,112,826 | 11.4% | 7,809,346 | 13.5% |
| Hyrwyddo addysg uwch | 6,966,774 | 11.1% | 5,206,231 | 9.0% |
| **Cyfanswm** | **14,079,600** | **22.5%** | **13,015,577** | **22.5%** |

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2019/20**
**Tabl B: Rhagolwg gwariant incwm y cynllun ffioedd a mynediad, 2019/20**

Enw'r sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

**Rhagolwg gwariant incwm y cynllun ffioedd a mynediad, 2019/20**

a) Cyfle cyfartal

| Categorïau gwariant i gefnogi unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch: | 2019/20 £ | 2018/19 £ |
|---|---|---|
| 1. hyrwyddo a diogelu mynediad teg i addysg uwch gan gynnwys adnabod yr unigolion sydd â'r potensial mwyaf ymysg grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | | 650,779 |
| 2. denu myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol | 3,870,430 | 3,253,894 |
| 3. codi dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn eu cefnogi i lwyddo mewn addysg uwch | 774,086 | 0 |
| 4. cefnogi a chynyddu cyfraddau dal gafael, symud ymlaen a chwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a gofalwy | 774,086 | 650,779 |
| 5. gwella profiad addysg uwch grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch | 1,548,172 | 1,952,336 |
| 6. darparu gwybodaeth effeithiol i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, cyn eu hastudiaethau ac yn ystod eu hastudiaethau | | 0 |
| 7. darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch | | 0 |
| 8. cefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaeth bellach | | 1,301,558 |
| 9. cyfrannu at Bartneriaethau Ymestyn yn Ehangach | 146,052 | 0 |
| 10. arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad | | 0 |
| **Cyfanswm** | **7,112,826** | **7,809,346** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar Gyfle Cyfartal | 50.5% | 60.0% |

b) Hyrwyddo AU

| Categorïau gwariant i gefnogi unigolion heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch: | 2019/20 £ | 2018/19 £ |
|---|---|---|
| 1. sicrhau ymwneud mwy effeithiol â chyrff a chymunedau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru | 1,548,172 | 0 |
| 2. gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, yng nghyd-destun ansawdd profiad y myfyrwyr | 2,322,258 | 2,603,115 |
| 3. gwella cyflogadwyedd graddedigion o Gymru | 1,548,172 | 1,301,558 |
| 4. hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru mewn modd mwy effeithiol yn rhyngwladol | | 0 |
| 5. darparu addysg uwch cynaliadwy | | 0 |
| 6. codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch ymysg myfyrwyr posib | 1,548,172 | 1,301,558 |
| 7. arall, er enghraifft gwerthuso'r cynllun ffioedd a mynediad | | 0 |
| **Cyfanswm** | **6,966,774** | **5,206,231** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar Hyrwyddo AU | 49.5% | 40.0% |

| | 2019/20 £ | 2018/19 £ |
|---|---|---|
| c) Cyfanswm y gwariant a ragwelir o incwm cynllun ffioedd a mynediad 2019/20, a) + b)" | **14,079,600** | **13,015,577** |

d) Cymorth ariannol i fyfyrwyr (eisoes wedi eu cynnwys yn a) a b) uchod)

| | 2019/20 | | 2018/19 | |
|---|---|---|---|---|
| | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir | £ | Niferoedd myfyrwyr a gynorthwyir a ragwelir |
| Hepgor ffioedd | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Bwrsariaethau | 1,163,910 | 2,730 | 906,000 | 1,660 |
| Ysgoloriaethau | 344,000 | 387 | 374,000 | 840 |
| Cronfeydd caledi | 230,000 | 460 | 220,000 | 460 |
| Darparu cyngor a sgiliau rheoli ariannol | 680,000 | 2,000 | 680,000 | 2,000 |
| Cymorth ariannol arall | 750,000 | 2,000 | 750,000 | 2,000 |
| **Cyfanswm** | **3,167,910** | **7,577** | **2,930,000** | **6,960** |
| Canran o'r rhagolwg gwariant i'w wario ar gefnogaeth ariannol i fyfyrwyr | 22.5% | | 22.5% | |

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2019/20**
**Tabl C: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd myfyrwyr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser dan y gyfundrefn ffioedd ôl-2012/13, 2019/20**

Enw'r sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| Crynodeb o'r data | ISRADDEDIGION LLAWN-AMSER | TAR (SAC) LLAWN-AMSER |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 52,019,000 | 3,852,000 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myfyrwyr | 5,795 | 428 |
| Ffi gyfartalog | 8,977 | 9,000 |

| Rhes | Ffi arfaethedig £ | Nod y cymhwyster (neu ddull arall o grwpio) | Pwnc (neu ddull arall o grwpio) | Blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs | TAR (SAC) Y/N? | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | A yw'r ddarpariaeth hon yn cael ei dilysu gan gorff arall? Y neu N | Os Y, rhowch enw'r corff dilysu | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 7,000 | Tystysgrif AU (STEM) | STEM | Pob Blwyddyn | N | 50 | N | | 350,000 |
| 2 | 9,000 | Tystysgrif AU | | Pob Blwyddyn | N | 1,100 | N | | 9,900,000 |
| 3 | 9,000 | HND | Diploma Cenedlaethol Uwch | Pob Blwyddyn | N | 250 | N | | 2,250,000 |
| 4 | 9,000 | Gradd Sylfaen | Gradd Sylfaen | Pob Blwyddyn | N | 60 | N | | 540,000 |
| 5 | 9,000 | Gradd Israddedig | Graddau Cyntaf | Pob Blwyddyn | N | 4,170 | N | | 37,530,000 |
| 6 | 1,800 | Blwyddyn Ryngosod (blwyddyn mewn diwydiant) | | Pob Blwyddyn | N | 5 | N | | 9,000 |
| 7 | 9,000 | Meistr Integredig | Meistr Integredig | Pob Blwyddyn | N | 160 | N | | 1,440,000 |
| 8 | 9,000 | TAR | TAR | Pob Blwyddyn | Y | 428 | N | | 3,852,000 |

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2019/20**
**Tabl D: Lefelau ffioedd ac incwm ffioedd ar gyfer myfyrwyr israddedig a TAR (SAC) llawn-amser o dan y drefn ffioedd ôl-2012/13 ar gyfer darpariaeth partneriaeth yn y DU, 2019/20**

Enw'r sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| **Crynodeb o'r data** | ISRADDEDIGION LLAWN-AMSER | TAR (SAC) LLAWN-AMSER |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr incwm disgwyliedig | 6,705,000 | 0 |
| Cyfanswm nifer disgwyliedig y myf | 745 | 0 |
| Ffi gyfartalog | 9,000 | |

| Rhes | Enw'r Partner | Cyfeiriad y Partner | Cadarnhewch bod y partner yn elusen *(Cadarnhawyd)* | Nod y cymhwyster Dewiswch oddi ar y gwymprestr | Teitl y Cwrs | | Dyddiad y cytundeb partneriaeth (DD/MM/BB) | Os yw dyddiad y cytundeb partneriaeth cyn 1 Medi 2015, ceir atodiad sy'n cadarnhau bod y ddarpariaeth yn dod o dan y Ddeddf AU *(Cadarnhawyd)* | Blwyddyn (blynyddoedd) y cwrs | Nifer rhagdybiedig myfyrwyr a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo'r ffi gyfartalog | Ffi arfaethedig £ | Cyfanswm yr incwm disgwyliedig (nifer y myfyrwyr x ffi arfaethedig) £ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (c) Gradd Sylfaen | Gofal a Chymorth | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 2 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (c) Gradd Sylfaen | Plentyndod Cynnar | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 3 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | HND Systemau Cyfrifiadura a Gwybodaeth | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 4 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | HND Peirianneg Drydanol ac Electronig | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 8 | 9,000 | 72,000 |
| 5 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | HND Peirianneg Fecanyddol | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 8 | 9,000 | 72,000 |
| 6 | Gower College | Tycoch Rd, Sketty, Swansea SA2 9EB | Y | (c) Gradd Sylfaen | Datblygu a Rheoli Chwaraeon | | 07/09/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 48 | 9,000 | 432,000 |
| 7 | Pembrokeshire College | Haverfordwest SA61 1SZ | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Rheolaeth Busnes | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 8 | Pembrokeshire College | Haverfordwest SA61 1SZ | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Cyfrifiadura | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 9 | Pembrokeshire College | Haverfordwest SA61 1SZ | Y | (a) Graddau Cyntaf | Astudiaethau Dylunio | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 5 | 9,000 | 45,000 |
| 10 | Pembrokeshire College | Haverfordwest SA61 1SZ | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Peirianneg Fecanyddol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 16 | 9,000 | 144,000 |
| 11 | Pembrokeshire College | Haverfordwest SA61 1SZ | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Peirianneg Drydanol ac Electronig | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 16 | 9,000 | 144,000 |
| 12 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Gwyddor Anifeiliaid | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 8 | 9,000 | 72,000 |
| 13 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ymddygiad a Lles Anifeiliaid | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 14 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Celf a Dylunio: Amlddisgyblaethol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 15 | 9,000 | 135,000 |
| 15 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Amaethyddiaeth | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 10 | 9,000 | 90,000 |
| 16 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Amaethyddiaeth | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 17 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Amaethyddiaeth | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 10 | 9,000 | 90,000 |
| 18 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Amaethyddiaeth | | 20/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 19 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Cyfrifiadura Cymhwysol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 20 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cyfrifiadura Cymhwysol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 10 | 9,000 | 90,000 |
| 21 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Rheolaeth Busnes | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 22 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Rheolaeth Busnes | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 10 | 9,000 | 90,000 |
| 23 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Astudiaethau Plentyndod | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 20 | 9,000 | 180,000 |
| 24 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cerameg a Gemwaith: Gwneuthurwr 3D | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 25 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Cwnsela | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 26 | 9,000 | 234,000 |
| 26 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cwnsela | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 8 | 9,000 | 72,000 |
| 27 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Darlunio Digidol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 28 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Celf Gain (Peintio, Darlunio a Gwneud Printiau) | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 29 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ffasiwn: Dylunio a Llunio Dillad | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 30 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cyfathrebu Graffig | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 18 | 9,000 | 162,000 |
| 31 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Peirianneg Fecanyddol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 6 | 9,000 | 54,000 |
| 32 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Ffotograffiaeth | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 33 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cerflunio: Castio, Cerfio, Llunio | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 34 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 35 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Chwaraeon | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 4 | 9,000 | 36,000 |
| 36 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Rygbi | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 37 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Rygbi | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 4 | 9,000 | 36,000 |
| 38 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 39 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Hyfforddiant a Pherfformiad Pêl-droed | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 4 | 9,000 | 36,000 |
| 40 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (c) Gradd Sylfaen | Astudiaethau Gofal Cymdeithasol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 32 | 9,000 | 288,000 |
| 41 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Astudiaethau Gofal Cymdeithasol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 12 | 9,000 | 108,000 |
| 42 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Tecstilau: Gwau, Gwehyddu a Chyfryngau Cymysg | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 24 | 9,000 | 216,000 |
| 43 | Coleg Sir Gar | Graig Campus, Sandy Rd, Llanelli SA15 4DN | Y | (a) Graddau Cyntaf | Nyrsio Milfeddygol | | 19/09/2011 | Y | Pob Blwyddyn | 32 | 9,000 | 288,000 |
| 44 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (c) Gradd Sylfaen | Astudiaethau Gofal | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 15 | 9,000 | 135,000 |
| 45 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (a) Graddau Cyntaf | Astudiaethau Gofal | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 15 | 9,000 | 135,000 |
| 46 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (a) Graddau Cyntaf | Cyfrifiadura Cymhwysol | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 7 | 9,000 | 63,000 |
| 47 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Rheoli Lletygarwch a'r Celfyddydau Coginio | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 5 | 9,000 | 45,000 |
| 48 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (a) Graddau Cyntaf | Rheoli Lletygarwch a'r Celfyddydau Coginio | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 3 | 9,000 | 27,000 |
| 49 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (e) Diploma Cenedlaethol Uwch | Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 5 | 9,000 | 45,000 |
| 50 | NPTC Group | Dwr-y-Felin Road, Neath, Neath Port Talbot, SA10 | Y | (a) Graddau Cyntaf | Twristiaeth Ryngwladol a Rheoli Digwyddiadau | | 15/10/2015 | Y | Pob Blwyddyn | 5 | 9,000 | 45,000 |

**Cynllun ffioedd a mynediad sefydliadol 2019/20**
**Tabl G: Targedau**

Enw'r sefydliad: Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
UKPRN y sefydliad: 10007858

| Rhes | Disgrifiad o'r targed (dim mwy na 500 nod) | Categori gwariant cysylltiedig (fel y rhestrir yn nhabl B a) a B b)) Dewiswch o'r gwymplen | A yw cyflawni'r targed yn gyfrifoldeb i fwy nag un ymgeisydd cynllun ffioedd a mynediad? | | Blwyddyn gwaelodlin | Data gwaelodlin | | Gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer blwyddyn waelodlin | | | Targed | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | 2019/20 | |
| | | | Y / N | Os Y, rhowch enw'r partner (partneriaid) | | Nifer | % | Poblogaeth | Nifer | % | Nifer | % |
| 1 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio'n rhan amser | a2 denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; | N | | 2016/17 | 2,823 | | | | | 3,300 | |
| 2 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cynnal canran y dysgwyr israddedig aeddfed sy'n astudio'n rhan amser. | a2 denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; | N | | 2016/17 | 1,615 | 85.0% | 1,900 | 1,615 | 85.0% | | 85.0% |
| 3 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cynnal canran y dysgwyr cofrestredig sy'n byw yng Nghymru o ddau gwintel isaf Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru | a4 cefnogi a chynyddu cyfraddau cadw myfyrwyr, dilyniant a myfyrwyr sy'n cwblhau, yn enwedig pobl o gymdogaethau â chyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, ymadawyr gofal a gofalwyr; | N | | 2016/17 | 2,691 | 37.0% | 7,244 | 2,693 | 37.0% | 2,693 | 37.0% |
| 4 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cynyddu canran y dysgwyr BAME sy'n llwyddo i gyflawni dyfarniad y Dystysgrif AU Sgiliau ar gyfer y Gweithle | a3 codi dyheadau addysgol a sgiliau pobl o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn cefnogi llwyddiant mewn addysg uwch; | N | | 2016/17 | 69 | 42.0% | 163 | 69 | 42.0% | | 72.0% |
| 5 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Lleihau canran y dysgwyr israddedig llawn amser nad ydynt bellach mewn addysg uwch yn dilyn eu blwyddyn mynediad; | b2 gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr; | N | | 2016/17 | 255 | 12.3% | 2,070 | 255 | 12.3% | | 11.2% |
| 6 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Lleihau canran y dysgwyr israddedig rhan amser nad ydynt bellach mewn addysg uwch ddwy flynedd ar ôl eu blwyddyn mynediad | a2 denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; | N | | 2016/17 | 10 | 20.7% | 60 | 10 | 20.7% | | 20.0% |
| 7 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cadw canran y dysgwyr israddedig llawn amser sy'n derbyn y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl uwchben y meincnod | a5 gwella'r profiad o addysg uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch; | N | | 2016/17 | 840 | 18.2% | 4,620 | 840 | 18.2% | | 16.8% |
| 8 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: Cyflawni neu ragori ar ein sgôr feincnod am foddhad cyffredinol yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr | b2 gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr; | N | | 2017 | | 85.0% | | | | | 87.0% |
| 9 | Rhoi dysgwyr yn gyntaf: 240 o fyfyrwyr i dderbyn cymorth iechyd meddwl 1:1 (a gyllidir gan y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl) yn 2019/20 | a5 gwella'r profiad o addysg uwch ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg uwch; | N | | 2016/17 | 225 | | | 225 | | 240 | |
| 10 | Addysgu: Cyflawni gwelliant parhaus yn ein perfformiad yn yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr mewn mesurau sy'n ymwneud yn benodol ag ansawdd yr addysgu a'r her i'r dysgwr | b2 gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gyda golwg ar ansawdd profiadau myfyrwyr; | N | | 2017 | | Q1-4 86%<br>Q5-7<br>86.3% | | | | | 87%<br>87% |
| 11 | Addysgu: cynyddu nifer ein graddedigion mewn galwedigaethau rheoli neu broffesiynol | b3 cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru; | N | | 2015/16 | | 64.5% | | | | | 69.0% |
| 12 | Partneriaethau: Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach y tu fewn i Grŵp y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | b6 codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr. | N | | 2016/17 | 326 | | | | | 339 | |
| 13 | Partneriaethau: Cynnydd yn y nifer o ddysgwyr sy'n symud ymlaen o addysg bellach y tu allan i Grŵp y Drindod Dewi Sant i raglenni addysg uwch Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant | b6 codi ymwybyddiaeth am werth addysg uwch i ddarpar fyfyrwyr. | Y | NPTC | 2016/17 | 420 | | | | | 450 | |
| 14 | Partneriaethau: Cynnydd yn y nifer o raglenni achrededig, a rhaglenni a ddatblygir mewn cydweithrediad â chyflogwyr neu mewn ymateb i alw gan gyflogwyr | b1 darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru; | N | | 2016/17 | 57 | | | | | 65 | |
| 15 | Partneriaethau: Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ar brentisiaethau lefel uwch o fewn Grŵp y Drindod Dewi Sant | b1 darparu ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus neu wirfoddol ac â chymunedau yng Nghymru; | N | | 2016/17 | 16 | | | | | 22 | |
| 16 | Cymru: Cynnal nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg | a2 denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; | N | | 2016/17 | 2,380 | | | | | 2,380 | |
| 17 | Cymru: Cynnal nifer y dysgwyr sy'n ymgymryd ag o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg | a2 denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol; | N | | 2016/17 | 466 | | | | | 600 | |
| 18 | Cymru: Cynnydd yn nifer y cwmnïau newydd gan raddedigion | b3 cryfhau cyflogadwyedd graddedigion o Gymru; | N | | 2016/17 | 51 | | | | | 65 | |